Hafod Ceiri
-LLITHFAEN-

MANTELL GWYNEDD

# Adroddiad Rhagolwg Adenillion Gwerth Cymdeithasol

# Caffi Hafod Ceiri, Llithfaen

## Ebrill 2024-
## Mawrth 2026



"Bydd o yn hwb grêt i'r gymuned"

SOCIAL VALUE CYMRU
Mesur Measure · Effaith Impact · Dysgu Learning · Llesiant Well-being

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

## Cynnwys

1.0 Cyflwyniad ........ 10

2.0 Pwrpas, Cwmpas a Chynulleidfa ........ 11

3.0 Cefndir a Chyd-destun ........ 13

4.0 Fframwaith Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau ........ 28

5.0 Ymgysylltu â rhanddeiliaid ........ 33

6.0 Mewnbynnau ........ 40

7.0 Deilliannau, Canlyniadau a Thystiolaeth ........ 45

8.0 Sut mae'r deilliannau'n berthnasol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)?64

9.0 Gwerth Deilliannau ........ 67

10.0 Sefydlu Effaith ........ 72

11.0 Canlyniadau SROI ........ 78

12.0 Dadansoddiad Sensitifrwydd ........ 80

13.0 Cyfyngiadau ........ 84

14.0 Risgiau ........ 86

15.0 – Proses ddilysu ........ 89

16.0 Casgliad a Chanfyddiadau Allweddol ........ 90

17.0 Argymhellion ........ 93

18.0 Atodiadau ........ 95

# Ffigrau

Ffigur 1- Dadansoddiad Grant Sector Gwirfoddol ....18

Ffigur 2 - Amser a Dreuliwyd yn Dda (2023) Adroddiad: Rhesymau i fod yn annhebygol o barhau i wirfoddoli ....26

Ffigur 3 - Pro Bono Economics: Mathau o rwystrau recriwtio ....26

Ffigur 4 - Pro Bono Economics: Cyfraddau gwirfoddoli ffurfiol rheolaidd ....27

Ffigur 5 - Egwyddor Perthnasedd ....34

Ffigur 6 - Oed Gwirfoddolwyr ....38

Ffigur 7 - Oed Trigolion ....38

Ffigur 8 - Oed Gwirfoddoli (ymatebion holiadur) ....52

# Tablau

Tabl 1 - Grantiau Hafod Ceiri ....15
Tabl 2 - Rhestr Rhanddeiliaid a Pherthnasedd ....35
Tabl 3 - Ymgysylltiad gyda Rhanddeiliaid ....37
Tabl 4 – Cost amser roddwyr gan wirfoddolwyr I'r prosiect Ebrill 2025 – Mawrth 2025 ....42
Tabl 5 - Cost amser a roddwyd gan wirfoddolwyr i'r prosiect Ebrill 2025-Mawrth 2026 ....42
Table 6 - Gwariant Refeniw Caffi ....43
Tabl 7 - Cyfanswm Mewnbynnau Ariannol ....44
Tabl 8 Gwerthuso Deilliannau ....70
Tabl 9 - Gwrthffeithiol Gwirfoddolwyr ....73
Tabl 10 - Prodoliad Gwirfoddolwyr ....75
Tabl 11 - Priodoliad Trigolion ....76
Tabl 12 - Prif Ganlyniadau SROI ....78
Tabl 13 - Gwerth cymdeithasol a grëwyd fesul grŵp rhanddeiliad ....79
Tabl 14 - Crynodeb o'r Dadansoddiad Sensitifrwydd ....81
Tabl 15 - Risgiau ....86

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y dadansoddiad o Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) a ragwelir yn dilyn cwblhau gwaith adeiladu a dodrefnu Caffi Hafod Ceiri a'r gwerth cymdeithasol a grëir i'r gwirfoddolwyr a'r trigolion lleol o ganlyniad i'r prosiect rhwng Ebrill 2024 – Mawrth 2026. Ariennir y gwaith gan gyllid Cronfa Ffyniant Cyffredin wedi'i ddosbarthu gan Grant Sector Gwirfoddol Mantell Gwynedd. Yn seiliedig ar y dull a ddefnyddiwyd a'r dyfarniadau proffesiynol a wnaed, nodwyd mai **£3.36:1** fyddai'r SROI – sy'n golygu y rhagwelir y caiff **£3.36 o werth ei greu am bob £1 a fuddsoddir – gydag ystod o £2.28 – £6.48 yn seiliedig ar y dadansoddiad sensitifrwydd a gynhaliwyd.**

Mae'r adroddiad yn dadansoddi effaith disgwyliedig y gwaith adeiladu a dodrefnu a fydd yn caniatau agor y Caffi a chynnal gweithgareddau, ac effaith hyn ar y darpar wirfoddolwyr a thrigolion lleol a fydd yn mynychu'r Caffi. Disgwylir y bydd 20 o wirfoddolwyr a 150 o drigolion lleol yn defnyddio'r Caffi'n rheolaidd yn dilyn ei agor. Mae rhai o'r gwirfoddolwyr wedi bod yn cyfrannu o'u hamser a'u harbenigedd yn ystod y flwyddyn gyfredol (Ebrill 2024-Mawrth 2025), felly, rydym yn dehongli eu cyfraniad nhw a'r gwerth a grëir yn seiliedig ar y flwyddyn gyfredol a'u disgwyliadau ar gyfer yr ail flwyddyn (Ebrill 2025 – Mawrth 2026) yn dilyn agor y Caffi. Yn achos y Trigolion Lleol, mae'r adroddiad yn dangos y gwerth a ddisgwylir ei greu iddynt ar gyfer yr ail flwyddyn yn unig (Ebrill 2025-Mawrth 2026).

Felly, mae angen pwysleisio mai rhagolwg yw'r Adroddiad yma yn seiliedig ar ddata a gasglwyd gan ddarpar wirfoddolwyr a darpar drigolion lleol a fydd yn defnyddio'r Caffi. Cafwyd mewnbwn da o safbwynt data a gasglwyd gan y ddau grwp yma ac fe lwyddwyd i gadarnhau'r prif ddeilliannau ar eu cyfer gyda nhw sy'n cael eu nodi yn y Theorïau Newid a'r Map Gwerth.

I'r grwp o wirfoddolwyr, bydd yr effaith arnynt yn sylweddol. Er bod rhai ohonynt yn gwirfoddoli fel aelodau o'r Pwyllgor Rheoli ar hyn o bryd, bydd agoriad y Caffi yn golygu newid sylweddol yn y cyfleoedd a'r profiadau a fydd ar gael. Bydd y Caffi yn cynnig lleoliad dyddiol iddynt fynychu ar gyfer helpu gyda'r gwaith arlwyo a chynnig paneidiau, ac yna, nes ymlaen i helpu gyda gweithgareddau megis clybiau celf, darllen, cadw'n heini, yoga a cherdded. Eisoes, mae sesiynau hyfforddi gwirfoddolwyr wedi cael eu cynnal sydd yn eu paratoi ar gyfer y rolau amrywiol o wirfoddoli ar gyfer y cyfnod Ebrill 2025 ymlaen. Er bod hyn wedi digwydd drwy adnoddau Hafod Ceiri eu hunain, mae'n deillio o'r ffaith y bydd y Caffi yn agor yn fuan.

Mae'r gwirfoddolwyr wedi nodi deilliannau disgwyliedig clir gan gynnwys: **teimlad o berthyn i gymuned, ymdeimlad o bwrpas a llai o unigrwydd**. Mae'r canlyniadau a nodwyd ar gyfer y gwirfoddolwyr yn cyd-fynd â nod 'Cymru o gymunedau cydlynol' a 'Cymru iachach' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn ogystal, mae'n fwriad gan y Pwyllgor Rheoli i greu swydd Rheolwr Caffi a fydd yn lleihau'r pwysau ar y gwirfoddolwyr presennol o safbwynt rhaglennu a rhedeg y Caffi. Fe wnaed penderfyniad i beidio penodi Rheolwr hyd nes bod y Caffi'n agor. Disgwylir i hyn ddigwydd yn fuan a bydd yn hwb ymlaen i'r gweithgareddau. Bydd hyn yn fodd i leddfu rhai o bryderon gwirfoddolwyr am y straen posibl o fod yn nifer gymharol fach o bobl a fydd yn helpu i redeg y Caffi.

Yr ail grŵp o randdeiliaid allweddol yw'r trigolion lleol. Nodwyd ganddynt eu bod yn disgwyl yn eiddgar am agoriad y Caffi newydd am nifer o resymau. Y brif elfen sydd wedi dod i'r amlwg yw diffyg o ran darpariaeth i gymdeithasu dros baned a chael cyfle i brynu prydau bwyd yn Llithfaen yn ystod y dydd. Daeth yn glir wrth siarad gyda'r trigolion lleol bod yr angen i gael adnodd hwylus yn y pentref lle mae modd i drigolion alw heibio am sgwrs a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn bwysig i'w hiechyd meddwl ac yn achos rhai i leihau teimlad

o unigrwydd. Yn ogystal, roedd rhai trigolion yn ystyried bod yr angen i gerdded i'r Caffi a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn gymorth tuag at gynnal eu hiechyd corfforol. Dyma'r prif ddeilliannau a nodwyd ganddynt: **teimlo'n llai unig, teimlad o berthyn i gymuned, gwell iechyd corfforol, gwell iechyd meddwl**. Mae'r canlyniadau a nodwyd ar gyfer y trigolion lleol yn cyd-fynd â nod 'Cymru o gymunedau cydlynys' a 'Cymru Iachach' yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn dilyn casglu'r data ynghyd o ddisgwyliadau darpar wirfoddolwyr a thrigolion lleol, mae'n rhesymol disgwyl y bydd y gwaith o adeiladu a dodrefnu'r Caffi'n cyfrannu gwerth cymdeithasol sylweddol i wirfoddolwyr a thrigolion lleol dros y blynyddoedd i ddod.

## Cydnabyddiaeth

Ni fyddai wedi bod yn bosibl cynhyrchu'r adroddiad yma heb gynnwys y budd-ddeiliaid allweddol sy'n ein galluogi i ddeall pa newidiadau y maent yn gobeithio y bydd Caffi Hafod Ceiri yn cael arnynt a beth fydd effaith tebygol y newidiadau hynny. Rydym yn ddiolchgar dros ben i'r unigolion hynny sydd wedi rhoi amser i'n helpu i ddeall beth fydd yn medru newid yn eu bywydau a sut y gellir adeiladu ar yr effaith yma i'r dyfodol.

Diolch i'r darpar wirfoddolwyr, defnyddwyr ac ymwelwyr (criw Nant Gwrtheyrn) â Chaffi Hafod Ceiri am eu cefnogaeth yn cyfrannu gwybodaeth a sylwadau wrth i ni gasglu'r data meintiol ac ansoddol. Ni fyddai'r gwerthusiad yma wedi bod yn bosibl hebddynt.

Diolch yn fawr.

# Hafod Ceiri, Llithfaen

Adroddiad Rhagolwg Adenillion ar Fuddsoddiad
Ebrill 2024 - Mawrth 2026

## Trosolwg mewn niferoedd

- Disgwylir **150** o drigolion lleol
- Disgwylir **20** o wirfoddolwyr
- Bydd gwirfoddolwyr yn rhoi dros **5,000** o oriau i helpu rhedeg y caffi
- Llwyddodd Hafod Ceiri i gael **£98,795** o arian grant i agor caffi newydd yn Llithfaen

## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

**Gwirfoddolwyr**

- **2** grŵp ffocws gyda'r gwirfoddolwyr
- **8** ymateb i'r holiadur

**Trigolion**

- **2** grŵp ffocws gyda'r trigolion
- **2** sgwrs un i un
- **20** ymateb i'r holiadur

## Gwirfoddolwyr

- Mae **100%** o wirfoddolwyr yn rhagweld bydd eu teimlad o berthyn i gymuned yn cynyddu
- Mae **63%** o wirfoddolwyr yn rhagweld y bydd eu teimlad o bwrpas yn cynyddu
- Mae **100%** o wirfoddolwyr yn rhagweld y byddant yn teimlo'n llai unig

## Trigolion

- Mae **70%** o drigolion yn rhagweld byddan nhw yn teimlo'n llai unig
- Mae **100%** o drigolion yn rhagweld bydd eu teimlad o berthyn i gymuned yn cynyddu
- Mae **40%** o drigolion yn rhagweld bydd eu hiechyd corfforol yn gwella
- Mae **100%** o drigolion yn rhagweld bydd eu hiechyd meddyliol yn gwella



## Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

**Cymru o Gymunedau Cydlynol**
Mae'r canlyniadau a nodwyd ar gyfer y gwirfoddolwyr i gyd yn ymwneud â gwelliant yn y gymuned leol

**Cymru Iachach**
Mae'r canlyniadau a nodir ar gyfer y trigolion i gyd yn ymwneud â gwelliant o fewn llesiant meddyliol a chorfforol

Rhagolwg Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI)

£1 → £ 3.36

*Gweler yr adroddiad llawn am ragor o wybodaeth

# 1.0 Cyflwyniad

Bydd yr adroddiad rhagolwg Adenillion Gwerth Cymdeithasol yma yn dadansoddi'r effaith gymdeithasol a fydd yn debygol o gael ei greu gan Gaffi Hafod Ceiri rhwng Ebrill 2024 – Mawrth 2026 yn sgil derbyn grant Cronfa Ffyniant Cyffredin sy'n cael ei ddosbarthu gan Mantell Gwynedd. Mae'r grant yn caniatau uwchraddio, dodrefnu a darparu cyfleusterau mynediad hygyrch i'r Caffi.

Mae'r cynllun yn anelu i hyfforddi 20 o wirfoddolwyr, denu 150 o drigolion lleol fel defnyddwyr y Caffi a 1,250 o ymwelwyr yn flynyddol.

Bydd yr adroddiad yn bennaf yn ceisio rhagweld yr effaith bydd y Caffi yn cael pan yn agor ar y trigolion lleol a'r gwirfoddolwyr.

Gwnaed amcangyfrifon priodol drwy gasglu tystiolaeth sylfaenol drwy ymgysylltu ag unigolion sy'n byw'n lleol, darpar wirfoddolwyr a grŵp o ymwelwyr â'r ardal yn ogystal â chael tystiolaeth eilradd i gryfhau'r rhagdybiaethau. Bydd yr adroddiad yma'n dadansoddi'r wybodaeth gan ddefnyddio fframwaith Adenillion Gwerth Cymdeithasol i lunio rhagolwg hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025 a bydd yn gwneud argymhellion. Bydd yr adroddiad yma hefyd yn dangos sut fydd y deilliannau a brofir gan wirfoddolwyr a thrigolion lleol yn cyfrannu tuag at fuddiannau Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# 2.0 Pwrpas, Cwmpas a Chynulleidfa

## 2.1 Pwrpas a Chwmpas

Pwrpas y dadansoddiad yw darparu darlun clir o'r newidiadau y mae grwpiau o randdeiliaid allweddol yn gobeithio eu profi Mae'r adroddiad yn edrych yn benodol ar y deilliannau disgwyliedig i wirfoddolwyr a thrigolion lleol.

Mae'r adroddiad yn anelu i ddeall y profiadau disgwyliedig a phosibl i'r rhanddeiliaid ac i ddangos y canlynol:

- Gobeithion a disgwyliadau y rhanddeiliaid allweddol – y gwirfoddolwyr a'r trigolion lleol – sy'n greiddiol i'r prosiect.
- Y deilliannau posibl i randdeiliaid materol eraill – yn benodol ymwelwyr o'r tu allan i'r gymuned.
- Rhoi gwerth i'r prosiect ac ateb y cwestiwn: 'Ydi prosiect Caffi Hafod Ceiri yn debygol o greu gwerth cymdeithasol?
- Adnabod pa newidiadau y gellir eu cyflwyno i'r prosiect i greu mwy o ddeilliannau positif a mwy o werth i wirfoddolwyr, trigolion lleol, ymwelwyr ac asiantaethau.

## 2.2 Cynulleidfa

Mae'r adroddiad yma wedi'i baratoi ar gyfer cynulleidfa fewnol ac allanol.

Ar gyfer rhanddeiliaid mewnol, mae'r dadansoddiad yn anelu i ddarparu dealltwriaeth o'r newidiadau a fydd yn cael eu creu trwy weithgareddau'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys newidiadau positif a negyddol, yn ogystal â chanlyniadau bwriadol ac anfwriadol. Bydd hyn yn caniatáu i reolwyr y prosiect gymryd penderfyniadau gwell drwy gymryd yr wybodaeth yma i ystyriaeth er mwyn uchafu gwerth y prosiect.

Ar gyfer rhanddeiliaid allanol, y nod yw cyfathrebu effaith y cyllid yn effeithiol i gyllidwyr. Mae sicrhau cyfranogiad yr holl randdeiliaid yn arwain at ddealltwriaeth glir o'r newidiadau ac yn ffordd o gydlynu anghenion cymunedau lleol gyda phenderfyniadau strategol ar ddyrannu grantiau ar gyfer y dyfodol.

# 3.0 Cefndir a Chyd-destun

## 3.1 Yr angen am y Prosiect.

### Cefndir

Yn dilyn astudiaeth dichonolrwydd yn ardal Llithfaen a'r cylch yn 2013, fe adnabyddwyd yr angen am ddatblygiad fyddai'n creu adnodd cymunedol ac yn darparu gwasanaethau yn yr ardal wledig hon.

Mae'r astudiaeth yn adnabod gweledigaeth ar gyfer dyfodol mwy cynaliadwy, ac yn gweld datblygu Canolfan Dreftadaeth fel cyfrwng adfywio economaidd i wella hyfywedd mentrau a busnesau yn y cylch, bodloni'r angen lleol am gyfleusterau a gwasanaethau, a gwella profiad ymwelwyr.

Mae Capel Isaf Llithfaen yn adeilad rhestredig unigryw sydd nid yn unig yn nodwedd amlwg o dirlun Llithfaen, ond sydd hefyd wedi bod yn ganolog i fywyd cymdeithasol y pentref ers dechrau'r ganrif ddiwethaf. Mae'r adeilad bellach wedi dirywio'n gyflym, ac yn peryglu dyfodol man addoli olaf y pentref.

Cafodd cwmni elusennol Hafod Ceiri ei sefydlu er mwyn diogelu'r Capel , a datblygu canolfan dreftadaeth fydd yn gwasanaethu'r gymuned gyfan. Gweledigaeth y Cwmni yw '*Menter hyfyw sydd yn cyfrannu at gynnal iechyd a llesiant y gymuned, hybu'r economi leol, a dehongli treftadaeth a diwylliant unigryw yr ardal. Bydd dyfodol i Gapel Isaf Llithfaen fel man addoli ac adnodd cymunedol am genedlaethau i ddod*.'

Bwriad y fenter yw darparu awditoriwm 300 sedd, caffi cymunedol, canolfan dreftadaeth, sinema fach, unedau busnes, ystafell addoli, ac unedau gwyliau. Y bwriad yw y bydd y cyfleusterau hyn yn creu cyfle i gynnal amrywiaeth o weithgareddau cymunedol – diwylliannol, addysgol ac adloniadol, gan gyfrannu tuag at wella llesiant

rhanddeiliad a'r economi leol. Mae'r pwyslais ar gefnogi trigolion lleol, ond hefyd ymwelwyr, gan gynhyrchu incwm eu hunain i gyfrannu at y gwaith.

Mae Cynllun Busnes y Cwmni yn gosod pump nod:

- Diogelu dyfodol adeilad hanesyddol eiconig Capel Isaf Llithfaen
- Hybu adfywio economaidd lleol
- Hybu iechyd a llesiant trigolion lleol
- Hybu treftadaeth a diwylliant lleol
- Sicrhau man addoli parhaol ym mhentref Llithfaen

Mae'r Cynllun Busnes wedi'i lunio i gyfarch nifer o elfennau gwahanol ar gyfer datblygu adeilad y Capel ac wedi'i rannu i dri cham:

- Cam 1 – Datblygu'r Caffi,
- Cam 2 – Canolfan Ddehongli, Awditoriwm, Sinema ac Ystafell Addoli,
- Cam 3 – Unedau Busnes a Llety Ymwelwyr.

Dyfarnwyd y grant o £98,795 o Gronfa Ffyniant Cyffredin gan Mantell Gwynedd fel gwariant cyfalaf ar y Caffi i gynnwys adeiladu'r gegin a'r toiledau, cyflenwi trydan ac archebu a gosod offer cegin a thoiledau.

Mae'r Cynllun Busnes yn nodi nifer o weithgareddau bydd yn cael eu cynnal wrth anelu i gyflawni tri cham y Cynllun. O safbwynt Cam 1 – Datblygu'r Caffi, dyma'r prif weithgareddau perthnasol a nodir yn y Cynllun:

- Datblygu hyder cymunedol ac annog mentergarwch
- Datblygu cyfleon cyflogaeth yn y cylch
- Darparu gwasanaeth iechyd a lles yng nghanol y pentref
- Darparu cyfleoedd i drigolion gwrdd, cymdeithasu a chefnogi ei gilydd

- Lleihau achosion o unigrwydd yn y gymuned
- Galluogi ystod eang o bobl i ddysgu am dreftadaeth yr ardal

Partneriaid posibl: Yr Urdd, Adran Oedolion Cyngor Gwynedd, Nant Gwrtheyrn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

## Arianwyr

Mae Hafod Ceiri wedi denu grantiau a chefnogaeth ariannol gan nifer o bartneriaid ar gyfer y gwaith o adfer adeilad y Capel a'r Caffi gan gynnwys y canlynol: Garfield Weston, ANHE, Cyngor Gwynedd, Cronfa Treftadaeth y Loteri (HLF), CADW, Cronfa Treftadaeth Bensaerniol (AHF Cymru), Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (RCDF) a CFP.

*Tabl 1 - Grantiau Hafod Ceiri*

| | | |
|---|---|---|
| Ail doi/gwaith ar nenfwd y Capel | Garfield Weston | £20,000 |
| | ANHE | 5,300 |
| | Cyngor Gwynedd | 5,500 |
| | HLF | 47,400 |
| | CADW | 50,000 |
| | AHF Cymru | 40,000 |
| Ffenestri'r Capel | AHF Cymru | 41,000 |
| | ANHE | 12,100 |
| Caffi | RCDF | 112,000 |
| | CFP | 25,000 |
| | ANHE | 13,969 |
| | Cyngor Gwynedd | 3,000 |
| Cyfanswm | | 375,269 |

## Grant Cronfa Ffyniant Cyffredin

Ym mis Ionawr 2024, bu Hafod Ceiri yn llwyddiannus i gael grant o'r gronfa Grant Sector Wirfoddol (VSG) sy'n cael ei reoli gan Mantell Gwynedd, fel rhan o Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig tuag at gostau adeiladu a dodrefnu'r Caffi.

*Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) yn biler canolog o agenda Ffyniant Bro Llywodraeth y DU a bydd yn darparu £2.6 biliwn o gyllid ar gyfer buddsoddiad lleol ledled y DU erbyn mis Mawrth 2025.*

*Yng Nghymru, mae rhanbarth Gogledd Cymru wedi ei sefydlu sy'n cynnwys siroedd Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Bydd Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i weinyddu'r UKSPF.*

*Fodd bynnag, bydd pob penderfyniad ariannu yn cael ei wneud yn lleol ym mhob ardal. Awdurdodau Lleol fydd yn penderfynu pa brosiectau fydd yn derbyn arian gyda chyngor partneriaeth o rhanddeiliaid lleol.*

*Gall ymgeiswyr gyflwyno cais am brosiectau sy'n cyflawni mewn un ardal Awdurdod Lleol neu fwy. Bydd pob ardal yn penderfynu a ydynt am gefnogi cais neu ddim.*

*Mae cyfanswm o £126.46 miliwn wedi'i ddyrannu o'r UKSPF i Ogledd Cymru.*

***Dyraniad fesul awdurdod lleol***

*Gwynedd - £24,423,747*

*Ynys Môn - £16,081,937*

*Conwy - £24,520,120*

*Dinbych - £25,647,958*

*Fflint - £13,102,933*

*Wrecsam - £22,684,205*

*Mae’r cyllid yn cynnwys arian cyfalaf a refeniw ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2025.Bydd pob awdurdod lleol yn penderfynu sut y maent yn dymuno dewis prosiectau ar gyfer cefnogaeth UKSPF. Fodd bynnag, bydd ystyriaethau cyffredin yn cynnwys:*

- *alinio cynigion â buddsoddiadau ac ymyriadau â blaenoriaeth yr UKSPF;*
- *allbynnau a chanlyniadau disgwyliedig cynigion;*
- *ychwaneged ac aliniad prosiectau arfaethedig gyda gweithgaredd presennol a gweithgaredd arfaethedig;*
- *y gallu i gyflawni a chapasiti / gallu'r ymgeisydd (gan gynnwys ymwybyddiaeth o ofynion cyfreithiol a rheoliadol); a,*
- *aliniad cynigion gydag anghenion cenedlaethol, rhanbarthol ac, yn fwyaf arbennig, lleol.*


*Bydd ardaloedd lleol yn ystyried y cymysgedd cyffredinol o weithgareddau a gynigir yn ogystal â chynigion unigol, i sicrhau yr eir i'r afael ag anghenion eu hardaloedd ac amcanion blaenoriaethau buddsoddi'r UKSPF.*

*Ffigur 1- Dadansoddiad Grant Sector Gwirfoddol*

# CRONFA SECTOR WIRFODDOL MANTELL GWYNEDD
# VOLUNTARY SECTOR FUND

## ARFON

- Codi'r To-Bangor a Chaernarfon
- Community Arts Project, Bangor
- Banc Bwyd Arfon, Caernarfon
- Caban Pentre, Deiniolen
- Neuadd Groeslon
- Menter Fachwen, Deiniolen
- Neuadd Ogwen, Bethesda
- Neuadd Llanllyfni
- Seindorf Dyffryn Nantlle
- Canolfan Gymdeithasol Talysarn
- Neuadd Rhiwlas
- Canolfan Tregarth
- Neuadd Pentref Carmel
- Seindorf Deiniolen
- Clwb Peldroed Caernarfon




## MEIRIONNYDD

- Capel Bedyddwyr Tywyn
- Sied Egryn, Llanegryn
- Clwb Rygbi Dolgellau
- Barmouth Oasis Nursery
- Cae Capel Bach, Trawsfyndyd
- Neuadd y Pentref- Bontddu
- Clwb Rygbi Bro Ffestiniog
- Cyngor Dyffryn Ardudwy a Thalybont
- Canolfan Cymuned Y Parc, Y Bala
- South Gwynedd Older Persons Forum, Tywyn
- Friends of Wernymynach , Bermo
- Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog

## DWYFOR

- Clwb Rygbi Pwllheli
- Neuadd Penmorfa a'r Cylch
- Cymdeithas Chwaraeon Bro Eifl
- Ynni Llŷn, Penllŷn
- Pwyllgor Cae Chwarae Rhydyclafdy
- Hafod Ceiri, Llithfaen
- Canolfan Adloniant Aberdaron

## PAN GWYNEDD GYFAN

- Ymddiriedolaeth Llwybr Llechi Eryri
- Partneriaeth Awyr Agored

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

Cyngor Gwynedd Council

## 3.2 Amlinelliad o Gynllun Caffi Hafod Ceiri

Mae'r Caffi yn rhan o gynllun ehangach cwmni elusennol Hafod Ceiri sydd â'r nod o ddiogelu Capel Isaf a datblygu canolfan dreftadaeth fydd yn gwasanaethu'r gymuned gyfan. Mae'r Cynllun cyfan wedi'i rannu i 3 cam

- Cam 1 – Dablygu'r Caffi
- Cam 2 – Canolfan Ddengli, Awditoriwm, Sinema ac Ystafell Addoli
- Cam 3 – Unedau Busnes a Llety Ymwelwyr

### 1) Trigolion Lleol i fynychu'r Caffi'n rheolaidd.

Bydd gorffen adeiladwaith a dodrefnu'r Caffi yn darparu lleoliad hwylus yn y pentref o fewn cyrraedd hawdd i drigolion lleol fynychu'n rheolaidd. Bydd yn ganolbwynt naturiol i weithgareddau a digwyddiadau mewn awyrgylch groesawgar a chlud. Mae'n fwriad i gyflogi Rheolwr Caffi er mwyn cydlynu'r gweithgareddau ac i ymateb i anghenion gan drigolion lleol er mwyn cryfhau a gwella'r ddarpariaeth dros amser gyda'r trigolion.

### 2) Gwirfoddoli yn y Caffi

Un o gonglfeini'r prosiect yw gwirfoddolwyr. Cynhaliwyd ymgynghoriad gan arweinydd y prosiect ym mis Medi 2024. Cafwyd 71 o ymatebion ac o blith y rhain roedd 5 yn dangos awydd i wirfoddoli a 15 arall yn dangos diddoredeb mewn gwirfoddoli.

Mae'n fwriad i'r Rheolwr gydlynu'r gweithgareddau ar gyfer gwirfoddolwyr, ac i raglennu'r gwaith a fydd yn cynnwys ystod eang o ddyletswyddau o sesiynau digidol, teithiau cerdded, sgwrsio Cymraeg a gweithdai celf a chrefft. Bydd y Rheolwr yn medru gweithio mewn partneriaeth gyda'r gwirfoddolwyr, trigolion lleol ac ymwelwyr ac adnabod cyfleon a rhaglenni gwirfoddoli newydd wrth i'r Caffi ddatblygu dros amser.

Yn ogystal, mae'n fwriad cynnal rhaglen o weithgareddau a hyfforddiant ar gyfer y misoedd cyntaf o agor y Caffi.

### 3) Ymwelwyr â'r Caffi

Mae Adroddiad Ymwelwyr Cymru a ddarparwyd gan Beaufort Research i Gyngor Gwynedd yn 2019 yn cymharu prif weithgareddau ymwelwyr â Gwynedd gyda gweddill Cymru[1]. Y prif weithgareddau wrth ymweld â Gwynedd oedd:

- 37% - cerdded mwy na dwy filltir
- 33% - mynd i ymweld â pharciau gwledig/coedwig
- 29% - mynd i weld golygfeydd yn gyffredinol
- 28% ymweld â'r traeth.

Mae'n fwriad i'r Caffi ddenu ymwelwyr i droi mewn am baned wrth ymweld â'r ardal, yn arbennig i gerdded y mynyddoedd a mynd i Dre'r Ceiri. Bydd y Caffi yn fan cychwyn a gorffen teithiau i'r fryngaer yma. Dangosodd holiadur a gynhaliwyd gan arweinydd y prosiect bod 94% o ymwelwyr â'r ardal yn awyddus i ddefnyddio'r Caffi.

## Cerrig Milltir

Dyma'r cerrig milltir a nodwyd yn y cais ar gyfer datblygiad y Caffi:

- Hydref 2023 — Penodi adeiladwr i wneud y gwaith.
- Ionawr 2024 — Dechrau ar y gwaith adeiladu.
- Mawrth 2024 — Adeiladu'r gegin a'r toiledau; cyflenwi trydan ac archebu a gosod offer cegin a thoiledau.
- Mawrth 2024 — Hysbysebu swydd Rheolwr Caffi

[1] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2021-03/arolwg-ymwelwyr-cymru-2019-ymwelwyr-syn-aros-or-du.pdf

- Ebrill 2024 Gorffen ac Addurno’r adeilad
- Mai 2024 Recriwtio a hyfforddi Rheolwr Caffi; Recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr
- Mehefin 2024 Dechrau ymgyrch marchnata
- Gorffennaf 2024 Lansio/agor y Caffi’n swyddogol
- Medi 2024 Ail gysylltu â phartneriaid i raglennu gweithgareddau gaeaf y Caffi
- Hydref 2024 Cychwyn ar weithgareddau’r gaeaf

Yn anffodus, mae’r amserlen wedi llithro’n sylweddol ar adeg paratoi’r adroddiad SROI yma (Chwefror 2025). Rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei gyflawni ond mae’n debygol o gymryd yn hirach i ymgyrraedd at y allbynnau a nodir yn y cais.

## Targedau Allbynnau:

- Nifer Trigolion lleol yn ymweld â’r Caffi’n rheolaidd – 150
- Nifer Ymwelwyr â’r Caffi y flwyddyn – 1,250
- Nifer yr amwynderau/cyfleusterau sydd wedi’u creu neu eu gwella - 1

• Nifer o ddigwyddiadau neu weithgareddau lleol a gefnogir

- Gweithgareddau Newydd – 12
- Sesiynau - 150

• Nifer o ddigwyddiadau/rhaglenni cyfranogol – 12

• Nifer o gyfleoedd gwirfoddoli sy’n cael eu cefnogi - 10

## Targedau Canlyniadau:

• Niferoedd yn datgan bod eu hiechyd meddwl a llesiant wedi gwella - 30

• Nifer y trigolion lleol yn nodi gwell canfyddiadau o gyfleusterau – 50

• Nifer o ymwelwyr yn dweud bod ganddynt well ymwybyddiaeth o'r ardal a'i threftadaeth - 100

• Gwirfoddolwyr yn elwa trwy ddatblygu sgiliau, ymgysylltu neu gyfranogi – 10

• Gwella effithlonrwydd ynni yr adeilad a bod yn carbon-niwtral erbyn 2030

## 3.3 Sefydlu'r Angen

Yn yr adran yma o'r adroddiad byddwn yn dadansoddi a gwyntyllu ymhellach yr angen am Gaffi Hafod Ceiri. Mae nifer o resymau wedi'u nodi i ddangos yr angen am ddatblygiad y Caffi yn Llithfaen. Dyma'r prif ffactorau:

- Perygl i boblogaeth sy'n heneiddio gael eu cau allan oherwydd diffyg adnoddau hygyrch a chyfleus;
- Canfyddiad bod hyn wedi gwaethygu ers y pandemig;
- Diffyg cyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol a gwaith i bobl ifanc lleol;
- Trigolion yn ddihyder i ymuno â'r farchnad waith;
- Diffyg lle hwylus a chlud i drigolion gyfarfod, sgwrsio a chymdeithasu;
- Canfyddiad bod ymwelwyr angen caffi yn Llithfaen.

### Cynnydd mewn unigrwydd mewn pobl hŷn .

Mae tystiolaeth yn dangos fod gwneud yr amser i gymdeithasu a chwrdd â phobl yn eithriadol o bwysig, ac mae ymrwymiad rheolaidd i gyfarfod mewn gweithgaredd a'r cyfeillgarwch a ddaw yn ei sgil yn ffordd wych o ymateb i unigrwydd.

Dyma mae Age Cymru yn ei nodi am unigrwydd[2]:

*Bydd y rhan fwyaf o bobl yn teimlo'n unig ar ryw adeg yn ystod eu bywyd. Mae'n brofiad personol tu hwnt a fydd - yn y rhan fwyaf o achosion - yn pasio, diolch byth. Ond i nifer cynyddol o bobl, yn enwedig i bobl hŷn, gall unigrwydd ddiffinio eu bywydau a chael effaith sylweddol ar eu lles.*

[2] https://www.agecymru.cymru/gwybodaeth-a-chyngor/iechyd-a-lles/unigrwydd/

*Yn aml, rydyn ni'n teimlo'n unig pan fyddwn yn teimlo nad oes gennym berthnasau cymdeithasol cryf neu rydyn ni'n anhapus gyda'r cysylltiadau sydd gennym.*

*Mae yna sawl astudiaeth sydd wedi nodi ystod o ffactorau sy'n gysylltiedig â bod yn unig. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys:*

***rhwydweithiau cymdeithasol*** *(byw ar eich pen eich hunain, rydych yn weddw neu wedi ysgaru, diffyg cyswllt â ffrindiau a theulu a chyfleoedd cyfyngedig i gymryd rhan mewn achlysuron cymdeithasol)*

***iechyd*** *(iechyd gwael, symudedd cyfyngedig, anghenion gofal cymdeithasol neu nam* ***gwybyddol a synhwyraidd)***

***nodweddion unigol*** *(oedran, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, incwm isel, ymddeoliad)*

***nodweddion cymdogaeth*** *(strwythur adeiladau a strydoedd, darparu mwynderau lleol, ffiniau tiriogaethol, enw da ardal, cymdogrwydd, amddifadedd materol ardal breswyl).*

*Mae unigrwydd yn gysylltiedig ag iselder, problemau cwsg, iechyd gwybyddol, ymwrthedd fasgwlaidd dwysach, pwysedd gwaed uchel, straen seicolegol a phroblemau iechyd meddw*l.

Mae sefydlu'r Caffi yn Llithfaen yn cyfarch dau o'r ffactorau uchod yn benodol – sef rhwydweithiau cymdeithasol a nodweddion cymdogaeth. Bydd agoriad y Caffi yn cynnig lleoliad hygyrch ar stepen drws i bobl hŷn fedri galw heibio yn anffurfiol neu i ymuno mewn gweithgareddau a thrwy hynny yn lleddfu unrhyw elfennau o unigrwydd.

## Yr angen am gyfleoedd gwirfoddoli, hyfforddi a chael gwaith


Mae'r gweithgareddau cyfredol gan y gwirfoddolwyr yn canolbwyntio ar y gwaith o gasglu grantiau i ariannu'r gwaith adeiladu ac i reoli'r gwaith. Mae'r tîm bychan o ymddiriedolwyr gwirfoddol yn cynnwys Cadeirydd yr Ymddiredolwyr ac Ysgrifennydd y Pwyllgor Gwaith.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, fe ragwelir y bydd angen 20 o wirfoddolwyr i gefnogi'r gweithgareddau yn y Caffi ac i drefnu a chynnal digwyddiadau. Fe gynhaliwyd Holiadur i drigolion lleol gan gynnwys gwirfoddolwyr ym mis Medi 2024, ac fe wnaeth 71 o bobl ymateb. Roedd 45 o'r 71 (63%) yn nodi bod datblygiad y Caffi yn bwysig iddyn nhw o ran cael cyfle cyflogaeth, profiad gwaith a datblygu sgiliau.


Er bod yr ymateb yma'n galonogol, mae'n debygol y bydd denu a chadw gwirfoddolwyr yn heriol. Yn gyffredinol, mae llai o bobl yn gwirfoddoli nag erioed o'r blaen, yn enwedig ers 2020 a'r pandemig, ac mae sefydliadau yn wynebu her fwy i geisio cadw gwirfoddolwyr.

Mae'r adroddiad 'Time Well Spent' gan The National Council for Voluntary Organisations (NCVO) yn amlygu rhesymau pobl dros beidio gwirfoddoli gymaint erbyn hyn. Mae'r graffiau isod (ffigurau 2,3 a 4 ) yn dangos y prif resymau pam nad ydi pobl yn gwirfoddoli gymaint . Y prif reswm sy'n cael ei nodi yw bod pobl yn fyr o amser neu bod eu sefyllfaoedd wedi newid (o bosibl yn dilyn y pandemig). Ffactor arall sy'n cael ei ddangos ydi bod pobl wedi gwneud eu cyfraniad (h.y. tro rhywun arall yw gwneud hyn nawr) a'r rhwystrau i wirfoddoli.

*Ffigur 2 - Amser a Dreuliwyd yn Dda (2023) Adroddiad: Rhesymau dros fod yn annhebygol o barhau i wirfoddoli*





*Ffigur 3 - Pro Bono Economics: Mathau o rwystrau recriwtio*




Yn ogystal, mae tueddiad ar i lawr yn y nifer o wirfoddolwyr sy'n cynnig gwirfoddoli'n rheolaidd

*Ffigur 4 - Pro Bono Economics: Cyfraddau gwirfoddoli ffurfiol rheolaidd*




Mae’n ddiddorol bod cyfran uchel o’r rhai a ddychwelodd yr Holiadur ym Medi 2024 yn dangos bod cyfran uchel o’r bobl leol yn dangos diddordeb mewn gwirfoddoli. Nid yw’n bosibl arfarnu faint o wirfoddolwyr fydd yn rhoi amser i wirfoddoli yn ystod y flwyddyn nesaf, wrth gwrs, ond mae anelu i ddenu 20 o wirfoddolwyr i weld yn darged rhesymol a chyraeddadwy yn y flwyddyn gyntaf ac o bosibl, yn awgrymu tueddiad sy’n groes i’r patrwm ehangach o ran gwirfoddoli. Serch hynny, mae penderfyniad y Pwyllgor Gwaith i beidio cyflogi Rheolwr i’r Caffi ar hyn o bryd yn rhoi mwy o bwysau ar yr Ymddiriedolwyr.

# 4.0 Fframwaith Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau

Bydd yr adroddiad hwn yn dilyn egwyddorion Gwerth Cymdeithasol, fel y'u cyflwynir gan Social Value International a Social Value UK[3] i lunio adroddiad rhagolwg Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) ar Gaffi Hafod Ceiri.

Mae dau fath o adroddiad SROI: ceir adroddiadau gwerthuso ac adroddiadau rhagolwg. **Adroddiad rhagolwg Adenillion Gwerth Cymdeithasol (Social Return on Investment – SROI) yw hwn, gan ein bod yn mesur y canlyniadau rhwng Ebrill 2024 – Mawrth 2026**. Nid yw SROI yn cynnig dull caeth o fesur gwerth cymdeithasol, ond yn hytrach, fe'i seilir ar wyth egwyddor, a'r rhain sy'n tanategu sut y dylid cymhwyso SROI. Bwriad yr egwyddorion hyn yw cynnig cysondeb, a chynnig hyblygrwydd ar yr un pryd i gydnabod a chynnwys profiadau amrywiol gwahanol bobl.

### Egwyddorion Gwerth Cymdeithasol

**Cynnwys rhanddeiliaid**: Deall y ffordd mae'r mudiad yn creu newid drwy ddeialog gyda rhanddeiliaid

**Deall beth sy'n newid:** nodi canlyniadau y mae rhanddeiliaid yn eu profi (neu'n debygol o'u profi) a mesur dyfnder a hyd y newidiadau.

**Rhoi gwerth ar yr hyn sydd o bwys:** Deall pwysigrwydd cymharol gwahanol newidiadau i ddeilliannau fel y'u mynegir gan hyn yr effeithir arno. Mae meintioli gwerth yn darparu uned gyson i gymharu gwahanol newidiadau a gellir ei feintioli hefyd gan ddefnyddio dirprwyon ariannol i fynegi gwerth yn ariannol.

[3] https://www.socialvalueuk.org/what-is-social-value/the-principles-of-social-value/

**Cynnwys dim ond yr hyn sy'n berthnasol:** Canolbwyntio ar yr effeithiau hynny sydd bwysicaf i randdeiliaid, cymdeithas ac amcanion sefydliadol fel y gall y rhai sy'n gwneud penderfyniadau wneud y gorau o lesiant y rhai yr effeithir arnynt.


**Peidiwch â gor-hawlio** - Sicrhau bod honiadau am effeithiau yn ystyried yr hyn a allai ddigwydd beth bynnag (gwrthffeithiol) a chyfraniad eraill (priodoli).

**Byddwch yn dryloyw:** Dangos ar ba sail yr ystyrir y canfyddiadau yn gywir ac yn onest; a dangos yr adroddir arnynt a'u trafod gyda rhanddeiliaid.

**Gwiriwch y canlyniad:** Mae dilysu yn sicrhau bod yr holl ganfyddiadau'n cael eu craffu'n briodol - dylai hyn gynnwys rhanddeiliaid yr effeithir arnynt a gall hefyd gynnwys dilysu annibynnol.

**Bod yn ymatebol:** ymateb i fewnwelediadau o'r asesiad gwerth cymdeithasol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn gwella'r effeithiau a brofir gan randdeiliaid.

(ffynhonnell: socialvalueuk.org- cyf. Social Value Cymru)



## Methodoleg

O ofyn cwestiynau penodol i'r rhanddeiliaid sydd â'r profiad mwyaf helaeth o weithgaredd, gall SROI adnabod, feintioli, ac yn y pen draw, roi gwerth ariannol ar effeithiau er mwyn eu cymharu â chostau creu'r effeithiau hynny. Nid yw hyn yn golygu y gall SROI ddweud beth yw "gwir" werth y newidiadau, ond trwy ddefnyddio amrywiol ffynonellau i fynegi gwerth ariannol, gall gynnig gwerthusiad o brosiectau sy'n newid y modd y caiff gwerth ei gyfrif – gan ystyried effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Yn ôl Social Value UK (2014):

*"Mae SROI yn ceisio cynnwys gwerthoedd pobl sydd yn aml wedi'u cau allan o'r marchnadoedd gan ddefnyddio'r termau a ddefnyddir mewn marchnadoedd, hynny yw: arian, er mwyn rhoi llais i bobl mewn penderfyniadau am ddyrannu adnoddau"*

Wedi'i seilio ar wyth egwyddor, mae SROI yn defnyddio profiadau'r bobl sydd wedi profi newidiadau yn eu bywydau, neu a fydd yn eu profi, fel sail ar gyfer dadansoddiad gwerthusol neu ragolwg.


Mae mynd ati i fesur effaith mewn modd mwy holistig yn golygu y gellir cyfrif am newidiadau cadarnhaol, negyddol, bwriadol ac anfwriadol ar y Map Gwerth a grëir – ac yn y pen draw, o gymharu costau cymharol eu creu, pennir yr SROI. Dangosir y fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo'r SROI terfynol isod:

**SROI = Gwerth net presennol y buddion / Gwerth y mewnbynnau**

Er enghraifft, mae canlyniad o 4.50:1 yn dangos bod £4.50 o werth cymdeithasol yn cael ei greu am bob £1 a fuddsoddwyd.

Fodd bynnag, mae SROI yn llawer mwy na dim ond rhif. Stori newid yw SROI, sy'n cynnwys costau a buddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd, gyda thystiolaeth feintiol ac ansoddol.

## Y Gadwyn Newid




## Mewnbynnau

Gall mewnbynnau fod yn adnoddau ariannol neu anariannol. Er enghraifft, er bod arian yn angenrheidiol i brosiect, bydd sicrhau llwyddiant hefyd yn dibynnu ar bobl yn rhoi amser, arbenigedd ac adnoddau annirweddol eraill.

## Allbynnau

Yn aml, allbynnau gweithgareddau yn unig yw'r peth a fesurir, ond mae'n bwysig nodi nad yw allbynnau'n dangos llwyddiant neu fethiant gweithgareddau. Ystyriwch, er enghraifft, cwrs sy'n darparu cyngor a sgiliau i alluogi pobl i gael gwaith, a hwnnw'n mesur dim ond y nifer a fynychodd pob cwrs fel allbwn; nid yw hyn yn dangos llwyddiant neu fethiant cymharol deilliant hollbwysig y cwrs, sef: pobl yn cael gwaith.

Beth bynnag yw'r gweithgaredd, dim ond trwy fesur y deilliannau y cawn sicrwydd bod yr ymyrraeth yn gweithio, ac ar hynny mae SROI yn canolbwyntio.

# Deilliannau

Canlyniadau yw'r elfennau o lesiant sydd wedi newid neu a all newid i bobl o ganlyniad i weithgaredd. Y prif fathau o newid o safbwynt rhanddeiliaid yw newidiadau anfwriadol (annisgwyl) a bwriadedig (disgwyliedig), cadarnhaol a negyddol. Er enghraifft, gallai hyn fod yn gynnydd yn lles meddwl rhywun, neu'n ostyngiad mewn unigrwydd.

Y gwahaniaeth allweddol gyda SROI yw ei fod yn ein galluogi i fesur dyfnder a graddfa newid a rhoi gwerth ariannol i ganlyniadau perthnasol. Yna defnyddir egwyddorion cyfrifo i arwain y dadansoddiad tuag at ddealltwriaeth o effeithiau'r gweithgareddau. Yn unol â'r egwyddor o beidio â hawlio gormod, rhaid gofyn cwestiynau allweddol am bob canlyniad er mwyn deall gwerth y newid a ddaeth yn sgil yr ymyriad, sef:-

- Pa mor hir fydd y newid yn parhau (parhad)?
- Pa mor debygol ydyw y byddai'r newid hwn wedi digwydd heb yr ymyrraeth (gwrthffeithiol)?
- Pwy arall gyfrannodd i'w greu (priodoliad)?
- A yw'r gweithgareddau hyn wedi dadleoli deilliannau a fuasai wedi digwydd yn rhywle arall (dadleoliad)?
- Pa leihad fydd yng ngwerth y newid a greodd yr ymyrraeth mewn blynyddoedd i ddod (gostyngiad)?

## Gwerth Deilliannau

Yn gryno, gall SROI fynegi dealltwriaeth o'r gwerth holistig a grëwyd ac a ddinistriwyd

o ganlyniad i weithgareddau. O ddeall gwerth y deilliannau, rydym mewn gwell sefyllfa i'w rheoli gan ein bod yn deall yn well pa mor gymharol bwysig ydynt a gallwn dargedu strategaethau ac adnoddau'n fwy effeithiol. **Nid ymgais i roi pris ar bopeth yw rhoi gwerth ariannol ar ddeilliannau; fe ddyluniwyd y dull i ganiatáu nid yn unig mesur ystyrlon o effeithiau, ond hefyd, yn bwysicach fyth, er mwyn eu rheoli ar ôl eu mesur**. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i fudiadau'r trydydd sector, gan fod cadw at genhadaeth gymdeithasol yn gosod dyletswydd foesol ar ysgwyddau penderfynwyr i uchafu eu hadenillion cymdeithasol. Gall SROI bontio'r bwlch atebolrwydd sy'n bodoli'n aml rhwng y rhai sydd â'r pŵer i wneud penderfyniadau a'r rhai y mae'r penderfyniadau'n effeithio arnynt.


## 5.0 Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Cynnwys rhanddeiliaid yw gofyniad sylfaenol SROI. Dyma'r egwyddor sy'n sail i bob un arall ac mae'n ofynnol wrth gynnal SROI effeithiol. Heb fod rhanddeiliaid allweddol yn rhan o'r broses, nid oes unrhyw ddilysrwydd i'r canlyniadau – dim ond drwy ymgysylltu gwirioneddol y gallwn ddeall y newidiadau gwirioneddol neu'r newidiadau a ragwelir yn eu bywydau. Dim ond wedyn y gall SROI roi gwerth i'r pwysicaf oll. Defnyddiwyd dulliau ymchwil meintiol ac ansoddol i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn yr adroddiad hwn.

Er mwyn nodi'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad SROI, cymhwysir yr egwyddor o berthnasedd i gynnwys y canlyniadau hynny sydd bwysicaf i randdeiliaid, cymdeithas ac amcanion sefydliadol. Defnyddir y cysyniad hwn hefyd mewn cyfrifyddu confensiynol, ac mae'n golygu bod SROI yn canolbwyntio ar y rhanddeiliaid pwysicaf a'u canlyniadau pwysicaf, yn seiliedig ar ddau gysyniad: perthnasedd ac arwyddocâd

(gweler Ffigwr 5). Mae perthnasedd yn asesiad ansoddol sy'n nodi'r newidiadau hynny sydd o bwys i randdeiliaid. Mae arwyddocâd yn asesiad meintiol sy'n nodi maint yr effeithiau perthnasol gan ystyried dyfnder a graddfa'r newid, hyd, pwysigrwydd cymharol, a chyfraniad.

*Ffigwr 5 - Egwyddor Perthnasedd*



Yn y lle cyntaf, adnabuwyd amrywiaeth o randdeiliaid fel rhai sy’n effeithio ar y prosiect, neu’n cael eu heffeithio arnynt ganddo. Mae Tabl 2 yn dangos yr holl randdeiliaid, gan nodi a oeddent yn cael eu hystyried yn berthnasol i’w cynnwys yn y dadansoddiad SROI ai peidio.

*Tabl 2 - Rhestr Rhanddeiliaid a Pherthnasedd*

| Rhanddeiliaid | Yn profi effeithiau materol? | Eglurhad |
|---|---|---|
| **Trigolion Lleol** | **Ydi** | Y rhain fydd buddiolwyr allweddol y Caffi ac felly hwy yw’r rhanddeiliaid pwysicaf a bydd rhai o’r newidiadau y maent yn eu profi yn berthnasol ac yn arwyddocaol. |
| **Gwirfoddolwyr** | **Ydi** | Bydd cyfraniad y gwirfoddolwyr yn greiddiol i rediad y Caffi. Yn ogystal, bydd unrhyw fuddion i’r gwirfoddol o safbwynt gwella ansawdd bywyd yn berthnasol. |
| **Ymddiredolwyr ac Aelodau’r Pwyllgor Gwaith** | **Ydi** | Er mai gwirfoddolwyr yw’r criw sy’n gyfrifol am sefydlu a rhedeg y Caffi, mae cyfranogiad y tîm yma yn arbenigol ac yn hanfodol ar gyfer creu unrhyw newidiadau. Felly, mae eu mewnbwn yn berthnasol nawr a phan fydd y Caffi wedi agor. |
| **Ymwelwyr** | **Nac ydi** | Mae’n debygol y bydd ymwelwyr â’r Caffi yn rhan bwysig o incwm y Caffi yn y dyfodol ond nid oes digon o dystiolaeth i fesur beth fydd gwerth cymdeithasol y ddarpariaeth i’r ymwelwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | **Nac ydi** | Mae'n bosib bydd rhai o'r deilliannau ar waith ataliol yn creu arbedion posib i wasanaethau statudol yn y pen draw. Fodd bynnag, nid ydym wedi edrych ar yr effaith posibl yma gan ei bod yn rhy fuan i fesur ei werth posibl. |
| **Gwasanaethau iechyd** | **Nac ydi** | Mae'n bosib bod rhai o'r deilliannau ar waith ataliol yn creu arbedion posib i wasanaethau statudol yn y pen draw. Fodd bynnag, nid ydym wedi edrych ar yr effaith posib yma gan ei od yn rhy fuan i fesur ei werth posib. |
| **Busnesau Lleol** | **Nac ydi** | Mae rhai busnesau lleol wedi cael budd ariannol o'r gwaith adeiladu a dodrefnu, a bydd rhai yn elwa o fudnes gyda'r Caffi yn y dyfodol. Nid ydym yn ystyried bod gwerth cymdeithasol arwyddocaol yn debygol o ddeillio o hyn am ei fod yn rhan fach o'u gweithgareddau masnachol. |
| **Mantell Gwynedd** | **Ydi** | Mantell Gwynedd sy'n dosbarthu'r grant Cronfa Ffyniant Cyffredin ar gyfer y gwaith cyfalaf ar y Caffi. Fodd bynnag, nid yw canlyniadau/effeithiau ar gyfer Mantell Gwynedd wedi'u cynnwys. Mae ganddynt fewnbynnau materol ond nid deilliannau. |

Mae'n bwysig cydnabod nad yw pob unigolyn yr un fath. Gall deall bod gwahanol nodweddion yn cael effaith ar y data ein helpu i reoli a goleuo penderfyniadau. Felly, rhoddwyd ystyriaeth yn Tabl 3 isod i'r unigolion amrywiol a gymerodd rhan yn y Grŵp Ffocws.

*Tabl 3 - Ymgysylltiad gyda Rhanddeiliaid*

| Grŵp Rhanddeiliad | Nifer yn y grŵp | Dull ymgysylltu |
|---|---|---|
| Trigolion Lleol *1 | 150 (Nifer yn y Cais am grant) | - 2 grŵp ffocws gyda thrigolion lleol a gwirfoddolwyr<br>- 2 Holiadur<br>- 2 sgwrs un i un |
| Gwirfoddolwyr | 20 | - 2 grŵp ffocws gyda thrigolion lleol a gwirfoddolwyr<br>- 2 Holiadur |
| Ymddiriedolwyr | 4 | - 2 grŵp ffocws gyda thrigolion lleol a gwirfoddolwyr<br>- Sgyrsiau un i un gyda Chadeirydd yr Ymddiredolwyr ac Ysgrifennydd y Pwyllgor Gwaith<br>- Ebyst nol ac ymlaen gyda'r Ysgrifennydd |
| Ymwelwyr | 1250 (targed y Cynllun Busnes | - Grŵp Ffocws gyda grwp o fyfyrwyr Nant Gwrtheyrn<br>- 1 Holiadur |


Mae Cyfrifiad SYG (ONS) 2013 yn dangos poblogaeth o 505 ar gyfer ardal Llithfaen a Phistyll ar gyfer 2021[4].

## Potensial is-grwpiau o randdeiliaid

Mae potensial o is-grwpiau ar gyfer y ddau brif grŵp o randdeiliaid. Mae potensial i wneud dadansoddiad manylach o'r is-grwpiau. Yn y dyfodol, ymhen ychydig flynyddoedd yn dilyn sefydlu'r Caffi, byddai'n werth ystyried gwneud dadansoddiad manylach o'r rhanddeiliaid.

## Gwirfoddolwyr


*Ffigur 6 - Oed Gwirfoddolwyr*




## Trigolion

*Ffigur 7 - Oed Trigolion*

[4] https://censusdata.uk/w05001570-yr-eifl



Oed
18-24
5%
25-34
15%
35-44
15%
45-54
15%
55-64
15%
65+
35%

## 6.0 Mewnbynnau

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn disgrifio'r mewnbynnau angenrheidiol gan randdeiliaid lluosog. Mae rhai mewnbynnau yn ariannol, tra nad yw eraill - eto lle bo'n bosibl, mae'r mewnbynnau'n cael eu hariannu i gynorthwyo gyda'r cyfrifiad SROI. Heb y cyflenwad angenrheidiol o fewnbynnau gan amrywiol randdeiliaid perthnasol ni fyddai'r prosiect yn bosibl, mae dadansoddiad llawn o gyfanswm y mewnbynnau â gwerth ariannol i'w weld yn Nhabl 7 (tudalen 46).

- Mae'r ffigyrau ar gyfer Ebrill 2024 - Mawrth 2025 yn dangos y gwariant cyfalaf a mewnbwn yr Ymddiriedolwyr ac Aelodau'r Pwyllgor Gwaith.
- Mae'r mewnbynnau ar gyfer Ebrill 2025 a Mawrth 2026 yn dangos tafluniad o gostau rhedeg y Caffi gyda swm ar gyfer cyflogaeth Rheolwr Caffi. Mae'r ffigyrau'n seiliedig ar Gynllun Busnes Hafod Ceiri gyda chynnydd ychwanegol o 5%, oherwydd y potensial am gyflog uwch a chostau ychwanegol. Mae hyn yn unol â'r egwyddor o beidio â hawlio gormod, yn enwedig ar gyfer rhagolwg ail flwyddyn y prosiect.

**Ebrill 2024 – Mawrth 2025**

### Mantell Gwynedd

Bu Hafod Ceiri yn llwyddiannus i gael grant o £98,795 o'r Gronfa Ffyniant Cyffredin– Grant Sector Wirfoddol a reolir gan Mantell Gwynedd fel rhan o gynlluniau ariannu ehangach Gronfa Ffyniant Cyffredin gan Lywodraeth y DU. Mae'r grant ar gyfer gwaith cyfalaf – cegin a thoiled hygyrch, ffitiadau a dodrefn i'r caffi.

**Cyfanswm y mewnbwn ariannol gan Mantell Gwynedd = £98,795.**

## Ymddiriedolwyr ac Aelodau'r Pwyllgor Gwaith

Mae'r Ymddiriedolwyr ac Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn rhoi o'u hamser yn ddi-dâl i'r Caffi. Fodd bynnag, mae'n briodol i ystyried eu hamser fel mewnbwn ariannol i'r gwaith o gynllunio a rheoli'r gwaith a gwario'r arian grant yn briodol.

Yn ystod y flwyddyn 2024-25, roedd y prif fewnbwn yn cynnwys gwneud cais am ariannu'r gwaith ar y caffi, llunio cytundebau gyda chontractwyr a goruchwylio'r gwaith, dodrefnu ac addurno'r Caffi. Yn ogystal, fe wnaed gwaith sylweddol i godi ymwybyddiaeth yn y gymuned leol ac i gynnal a dadansoddi holiaduron gan ddarpar ddefnyddwyr a gwirfoddolwyr lleol ar gyfer y flwyddyn ddilynol pan fydd y Caffi'n agored.

Fe wnaed y gwaith yma'n bennaf gan nifer gymharol fychan o wirfoddolwyr gan gynnwys Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr, Ysgrifennydd y Pwyllgor Gwaith a thua 4 o aelodau'r Pwyllgor. Amcangyfrifir bod yr amser a roddwyd gan y gwirfoddolwyr yma ar gyfartaledd yn 5 awr yr wythnos. Yn ogystal, fe gyfrannodd gwirfoddolwyr eraill drwy gyfrannu amser yn achlysurol, er enghraifft mae rhai yn mynychu hyfforddiant hylendid bwyd a diogelu ac fe amcangyfrifir hynny i fod 10 o bobl yn cyfrannu tua 5 awr yn ystod y flwyddyn yma. (Tabl 4)

Er mwyn sicrhau nad ydym yn gor-hawlio nac yn tan-hawlio gwerth amser gwirfoddolwyr penderfynwyd mai'r cyflog byw cenedlaethol fyddai'r mesur ariannol mwyaf priodol o amser y gwirfoddolwyr. O 1 Ebrill, 2024, cynyddodd Llywodraeth y DU y cyflog byw i £11.44 yr awr[5] i bobl 21 oed a throsodd. Felly, byddwn yn cynnwys

[5]https://www.gov.uk/national-minimum-wage-rates
[5]https://www.gov.uk/government/news/national-living-wage-to-increase-to-1221-in-april-2025

gwerth y cyflog byw cenedlaethol yma rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025 am bob awr a ddarperir gan wirfoddolwyr (Tabl 5).

*Tabl 4 – Cost amser roddwyr gan wirfoddolwyr I'r prosiect Ebrill 2025 – Mawrth 2025*

| Gwirfoddolwyr | Oriau | Gwerth | Swm |
|---|---|---|---|
| **4 Aelodau Pwyllgor** | 5 awr am 50 wsnos = 250 | £11.44 yr awr fesul unigolyn | £11,440 |
| **10 Cyffredinol** | 5 awr y flwyddyn | £11.44 | £ 572 |
| **Cyfanswm** | | | £12,012 |

**Ebrill 2025 – Mawrth 2026 (Tafluniad)**

Disgwylir i'r Caffi fod yn agored a gweithredol erbyn 1 Ebrill 2025.

### Gwirfoddolwyr

Mae'n debygol y bydd angen i waith yr Ymddiriedolwyr ac Aelodau'r Pwyllgor gwaith barhau am y cyfnod yma, yn enwedig i oruchwylio dros y datblygiadau hyd nes y penodir Rheolwr i'r Caffi. Amcangyfrifir y bydd hyn yn digwydd am tua hanner y flwyddyn. Felly, rhoddir gwerth o hanner cyfnod y flwyddyn flaenorol sef 25 wythnos.

Bydd disgwyl i'r nifer o wirfoddolwyr gynyddu yn ystod y flwyddyn, felly, fe gynyddir nifer y gwirfoddolwyr am y flwyddyn yma o 10 i 20 a hefyd disgwylir i'r oriau gynyddu.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd cyflog byw pobl dros 21 oed yn cynyddu ym mis Ebrill 2025 i £12.21[6], felly byddwn yn defnyddio'r ffigwr hwn ar gyfer y rhagolwg o Ebrill 2025 – Mawrth 2026

*Tabl 5 - Cost amser a roddwyd gan wirfoddolwyr i'r prosiect Ebrill 2025-Mawrth 2026*

| Gwirfoddolwyr | Oriau | Gwerth | Swm |
|---|---|---|---|

[6]https://www.gov.uk/government/news/national-living-wage-to-increase-to-1221-in-april-2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| **4 Aelodau Pwyllgor** | 5 awr am 25 wsnos = 125 | £12.21 yr awr fesul unigolyn | £7,631 |
| **20 Cyffredinol** | 5 awr am 50 wsnos = 5,000 | £12.21 | £61,050 |
| **Cyfanswm** | | | £68,681 |

## Caffi Hafod Ceiri

Mae'r Caffi yn y broses o gael ei sefydlu a'i ddodrefnu yn ystod y flwyddyn gyntaf (Ebrill 2024-Mawrth 2025), felly nid oes gwariant penodol yn ystod y flwyddyn yma.

Yn ystod yr ail flwyddyn (Ebrill 2025-Mawrth 2026), yn dilyn sefydlu'r Caffi, bydd gwariant refeniw am y flwyddyn yn seiliedig ar gynllun busnes y Caffi ond wedi'i ddiweddaru gan gymryd cyfradd chwyddiant i ystyriaeth fel a ganlyn:

*Table 6 - Gwariant Refeniw Caffi*

| Blwyddyn 2 | Cynllun Busnes | X 5% chwyddiant | Amcangyfrif |
|---|---|---|---|
| Trydan, Dwr, Nwy | 3,300 | 165 | 3465 |
| Marchnata/gwefan | 940 | 47 | 987 |
| Wifi/Rhyngrwyd | 720 | 36 | 756 |
| Yswiriant | 1,000 | 50 | 1050 |
| Glanhau | 4,000 | 200 | 4200 |
| Cynnal a chadw | 2,000 | 100 | 2100 |
| Stoc caffi | 18,564 | 928 | 19,492 |
| Costau Banc | 104 | 5 | 109 |
| CYFANSWM | 30,628 | 1531 | 32,159 |

**Felly, amcangyfrifir mai cyfanswm mewnbwn ariannol y Caffi am yr ail flwyddyn yn unig yw £32,159**

## Rheolwr Caffi

Mae'n fwriad cyflogi Rheolwr Caffi. Nid oes cyllid ar gael ar hyn o bryd, ond mae'n fwriad i wneud cais am grant i ariannu'r swydd. Yn y cyfamser, mae'r Caffi'n bwriadu dod o hyd i gyllid i ariannu'r swydd o fis Ebrill ymlaen.

Er mwyn sicrhau nad ydym yn gorhawlio ar gyfer yr asesiad gwerth cymdeithasol, a gan fod rôl y Rheolwr yn allweddol i ddatblygiad a rhediad y Caffi, fe ystyrrir bod angen cynnwys swm ar gyfer hyn fel mewnbwn i gostau cynnal y Caffi.

Nodir cyflog o £24,246 yn y Cynllun Busnes, felly, amcangyfrir y swm yma gyda chynnydd chwyddiant o 5% (£1212) ar gyfer yr ail flwyddyn.

**Felly, fe osodir cost Rheolwr Caffi ar gyfer yr ail flwyddyn yn unig o £24,246 + £1212 = £25,458.**

*Tabl 7 - Cyfanswm Mewnbynnau Ariannol*

| **Rhanddeiliaid** | **Mewnbwn Ariannol** | | **Cyfanswm** | **Cost am bob rhanddeiliad** |
|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 (amcangyfrif) | | |
| Mantell Gwynedd | £98,975 | | **£98,975** | |
| Gwirfoddolwyr | £12,012 | £68,681 | **£80,693** | |
| Caffi Hafod Ceiri | | £32,159 | **£32,159** | |
| Rheolwr Caffi | | £25, 458 | **£25,458** | |
| Cyfanswm Mewnbwn Ariannol | £110,987 | £126,298 | **£237,285** | **£1395*** |

*150 o drigolion Lleol + 20 o Wirfoddolwyr = 170

# 7.0 Deilliannau, Canlyniadau a Thystiolaeth

Prif nod yr adroddiad hwn yw dadansoddi'r effaith gymdeithasol fydd yn cael ei greu gan y buddsoddiad cyfalaf i sefydlu Caffi Hafod Ceiri yn Llithfaen, a gweld sut y gallai'r buddsoddiad hwn gyfrannu at les rhanddeiliaid. Rydym wedi adnabod dau brif grŵp o randdeiliaid sef y trigolion lleol a'r gwirfoddolwyr. Mae un grŵp ychwanegol o fuddiolwyr posibl, sef ymwelwyr â'r ardal. Cynhaliwyd sesiwn ymgysylltu gyda grŵp o ymwelwyr â'r ardal (Grŵp ar gwrs gloywi iaith yn Nant Gwrtheyrn gerllaw) ac ystyriwyd adroddiad gan Beaufort Research i Gyngor Gwynedd ym mis Chwefror 2020 – Adroddiad Ymwelwyr Cymraeg 2019[7]. Nid oedd digon o dystiolaeth berthnasol ar gael i asesu effaith gymdeithasol debygol y caffi ar ymwelwyr â'r ardal. Gellid dadlau efallai na fydd y canlyniadau i ymwelwyr yn arwyddocaol oherwydd efallai na fydd ymweld â chaffi lleol yn aml yn cael effaith sylweddol ar eu llesiant. Felly, penderfynwyd peidio â chynnwys y grŵp hwn yn y Map Gwerth na'r asesiad o werth cymdeithasol yn yr adroddiad hwn. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr allbynnau a'r canlyniadau y mae'r gwirfoddolwyr a thrigolion lleol yn debygol o'u profi ac yna'n trafod sut mae'r canlyniadau'n cyd-fynd â thargedau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

[7] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/arroddyad-ymchwil-arolwg-wymwelwyr-cymru-2019.pdf

## 7.1 Gwirfoddolwyr


### Allbynnau

Mae'r adroddiad yma'n dadansoddi'r wybodaeth a gyflwynwyd gan y gwirfoddolwyr sydd wedi cymryd rhan mewn sesiynau grwpiau ffocws ac wedi llenwi a dychwelyd holiaduron. Yn seiliedig ar yr wybodaeth yma, rydym wedi amcanu tafluniad o'r nifer a'r oriau a fydd yn cael eu cyfrannu gan y gwirfoddolwyr Yn ystod y flwyddyn gyntaf (Ebrill 2024-Mawrth 2025), mae Aelodau'r Bwrdd yn ysgwyddo'r gwaith o gynllunio, paratoi a rheoli'r gwaith . Yn ogystal, maent yn trefnu sesiynau hyfforddi ar gyfer y gwirfoddolwyr a fydd yn helpu i gynnal gweithgareddau yn y Caffi. Mae disgwyl i'r Caffi fod yn weithredol o fis Ebrill 2025, felly, rydym wedi cymryd yr ail flwyddyn i fod yn rhedeg o Ebrill 2025 tan fis Mawrth 2026. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, mae'n ddisgwyliedig y bydd y gweithgareddau yn cychwyn yn arafach, ac y bydd llai o alw ar wirfoddolwyr i gyfrannu at y gwaith yn y cyfnodau cychwynnol. Felly, rydym wedi amcan y bydd 10 o wirfoddolwyr yn cyfrannu 5 awr y flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn gyntaf. Yna, yn dilyn penodi Rheolwr i'r Caffi, mae'n debygol y bydd mwy o weithgareddau'n cael eu trefnu a bydd mwy o angen am gyfraniadau gan wirfoddolwyr i gynnal y gweithgareddau a drefnir. Yn ystod yr ail flwyddyn rydym yn amcan y bydd 20 o wirfoddolwyr yn cyfrannu ar gyfartaledd 5 awr yr wythnos am 50 wythnos.

Yn dilyn cynnal dau grwp ffocws a dau holiadur, daethom i'r casgliad mai'r deilliannau a nodir isod yw'r rhai mwyaf priodol i'w mesur ar gyfer asesu gwerth cymdeithasol. Yn dilyn cyrraedd pwynt dirlawnder (saturation) o ran y sylwadau a'r ymatebion, fe luniwyd Theori Newid (TOC). Mae'r Theori Newid yn dangos y daith a ddilynwyd gan y gwirfoddolwyr er mwyn cyrraedd pob un o'r deilliannau.(gweler Atodiad 1)

## Deilliannau

### Deilliant 1 – Teimlad o berthyn i gymuned.




Daeth yn glir wrth wrando ar sylwadau'r gwirfoddolwyr yn y ddau grwp ffocws, bod dwy elfen i'r hyn a oedd yn bwysig iddynt wrth ystyried y teimlad o berthyn i gymuned. Mae'r ddwy elfen yn deillio o'r bygythiadau niferus i barhad yr iaith Gymraeg fel iaith gymunedol. Er bod Llithfaen yn bentref mewn ardal wledig, mae hefyd yn bentref ôl-ddiwydiannol yn dilyn cau'r chwareli ithfaen yn yr ardal yn ystod y ganrif ddiwethaf. Yn hanesyddol, roedd Llithfaen yn bentref Cymraeg ei iaith, ond fel yng ngweddill Cymru, gwelwyd dirywiad sylweddol yn nifer siaradwyr Cymraeg dros y can mlynedd ddiwethaf. Mae'r Adroddiad Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021[8]) gan Lywodraeth Cymru ac a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2022 yn amlygu'r prif ffactorau am y dirywiad.

8 https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2022/12/3/1671610676/y-gymraeg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021.pdf

Dwy brif ffactor sy'n nodweddu'r dirywiad mewn defnydd o'r Gymraeg yn gymunedol yw dad-boblogi ardaloedd gwledig ochr yn ochr â mewnlifiad o bobl di-Gymraeg; a throsgwlyddo'r Gymraeg i'r genhedlaeth nesaf.

Roedd yn amlwg wrth siarad gyda'r gwirfoddolwyr bod yr elfennau yma yn greiddiol i'w ysgogiad dros wirfoddoli ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y Caffi. Fel y gwelir uchod, mae'r ddwy linell a amlinellir yn y Theori Newid yn adlewyrchu'r ddwy elfen yma yn glir.

Cafwyd nifer o sylwadau am hyn gan y gwirfoddolwyr – er enghraifft:

*'Yr hyn dan ni angen yw rhywle sydd yn braf i alw heibio am baned a sgwrs a bod teimlad lleol a chymunedol i'r lle.'*

*'Byddai Caffi yn le da i ymwelwyr sy'n cerdded i ben Tre Ceiri neu lawr i'r Nant alw heibio am baned a chacen/bwyd.'*


*'Cyfarfod a chymdeithasu gyda phobl eraill yn y gymuned ac ymwelwyr yn ystod tymor yr ymwelwyr.'*

*'Mae bod ar gael i wrando ar bobl ifanc yn werthfawr a pheidio beirniadu a gweld bai.'*


Mae canlyniadau'r arolwg (gweler Atodiad 2) yn dangos bod **100%** o'r gwirfoddolwyr a ddychwelodd holiaduron yn nodi bod y teimlad o berthyn i gymuned yn bwysig iddynt a bydd y cyfle i wirfoddoli yn y Caffi yn gyfle ychwanegol i gyfrannu at wneud rhywbeth gwerthfawr yn y gymuned ac i gyfrannu'n bositif at y gymdeithas. Yn ogystal, mae'r pellter

teithio a ddisgwylir yn 59% (h.y. y lefel o newid mae'r gwirfoddolwyr yn disgwyl profi drwy wirfoddoli yn y Caffi). Roedd 100% o'r sampl (pob un o'r 20 o wirfoddolwyr) yn nodi eu bod yn disgwyl profi newid positif, felly fe gynhwysir 20 o wirfoddolwyr yn y map gwerth.

## Deilliant 2 – Teimlad o bwrpas




Nodwyd gan y gwirfoddolwyr pa mor bwysig yw cael y cyfle i wirfoddoli er mwyn gallu cyfrannu'n gadarnhaol at gynnal cymdeithas fywiog ar gyfer pob grŵp oedran yn y gymuned. Cafwyd ymatebion gan 20 o wirfoddolwyr i dri holiadur gwahanol i gyd. Derbyniwyd ymatebion gan amrywiaeth o oedrannau ar gyfer y gwirfoddolwyr gyda'r mwyafrif rhwng 51-70 oed. Roedd 30% o'r ymatebion rhwng 61-70 oed.




Yr ystod oedran 61-70 oed yw'r oedran trosiannol o symud o fyd gwaith i gyfnod newydd yn eu bywyd. Mae'r cyfnod hwn o newid yn heriol i lawer o bobl a gall fod yn anodd i rai. Un o ddisgwyliadau'r gwirfoddolwyr yw cael cyfle i gymdeithasu'n gyson yn y pentref mewn sesiynau gweithgaredd a chymorth yn y Caffi. Soniwyd am y cyfleoedd newydd yn y Caffi i gynnal amrywiaeth o weithgareddau megis celf a chrefft, nyddu, hanes, chwarae gemau bwrdd ayb, ac roedd teimlad cryf gan y rhai a gyfwelwyd fod hwn yn gyfle newydd nad yw'n digwydd ar hyn o bryd. Byddai hyn yn golygu pontio cenedlaethau yn y pentref drwy gynnal adnodd sy'n dod â phlant, oedolion a'r henoed at ei gilydd. Maen nhw hefyd yn rhagweld y bydd hyn yn lleihau'r undonedd a'r diflastod posib sy'n codi weithiau gan nad oes ffocws i ddigwyddiadau yn y pentref o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, y prif ffactor i wirfoddolwyr yw bod cyfrannu at weithgareddau i gynnal bywiogrwydd y gymuned yn gwneud iddynt deimlo'n well amdanynt eu hunain sydd yn ei dro yn arwain at ymdeimlad cynyddol o bwrpas. Dyma rai o'r sylwadau a wnaed sy'n crynhoi hyn:

*"Rhoi pwrpas i rai pobl hŷn adael y cartref a dod allani gymdeithasu."*

*"Helpu i leihau unigrwydd y bobl fwyaf ynysig yn y gymuned."*

*"Mae helpu i wella'r pentref yn rhoi synnwyr o bwrpas i mi."*

*"Yn yr hen ddyddiau, roedd hi'n bosib cyfarfod tu allan i'r ysgol tra'n aros am y plant, ond mae'r ysgol wedi bod ar gau ers blynyddoedd lawer."*

*"Gallai rhai o'r gweithgareddau gael eu trefnu yn arbennig ar gyfer plant a grŵp o bobl oedrannus."*

---

Mae'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol yn nodi pwysigrwydd y teimlad o berthyn i'r gymuned i wneud i bobl deimlo'n well amdanynt eu hunain – "*ymdeimlad o gysylltiad ag eraill yn y gymuned – mae gwirfoddoli yn eich cysylltu'n uniongyrchol â'r rhai o'ch cwmpas ac mae'n arbennig o fuddiol i'ch cymuned leol ac ymdeimlad o berthyn' fel un o brif fanteision gwirfoddoli"*[9].

Fel y dywedodd y gwirfoddolwyr eu hunain pan ofynnwyd iddynt beth y byddent yn gobeithio ei brofi wrth wirfoddoli yn y Caffi:

---

*" Boddhad personol a theimlad fy mod yn cyflawni rhywbeth gwerthfawr"*

*"Mae cymryd rhan yn rhoi hwb i chi barhau!"*


*'Dysgu sgiliau newydd trwy addasu i anghenion y prosiect yn y Pentref'.*

---

9 https://www.royalvoluntaryservice.org.uk/volunteering/why-volunteer/benefits-of-volunteering/

Mae canlyniadau'r arolwg (Atodiad 2) yn dangos bod 63% o'r gwirfoddolwyr a ddychwelodd holiaduron yn nodi bod cael ymdeimlad o bwrpas yn bwysig iddynt a bydd y cyfle i wirfoddoli yn y Caffi yn gyfle ychwanegol i gyfrannu at wneud rhywbeth gwerthfawr yn y gymuned ac i gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas. Yn y canlyniad hwn, mae'r pellter a deithir yn gymharol isel - 38% (h.y. lefel y newid y mae'r gwirfoddolwyr yn disgwyl ei brofi drwy wirfoddoli yn y Caffi). Dywedodd 63% o'r sampl eu bod yn disgwyl profi newid cadarnhaol felly bydd 13 o wirfoddolwyr yn cael eu cynnwys ar y map gwerth.

## Deilliant 3 – Lleihau Unigrwydd i Wirfoddolwyr




Roedd pob un o'r rhai a holwyd yn nodi y bydd gwirfoddoli yn y Caffi yn lleihau unigrwydd. Er bod rhai gweithgareddau'n cael eu trefnu yn y Ganolfan yn y pentref o dro i dro, nid oes unrhyw le hwylus a chlud yn y pentref i bobl fedru ymgynnull yn anffurfiol i gymdeithasu a sgwrsio. Yn y darn o'r Theori Newid uchod, mae hyn yn cael ei adlewyrchu'n glir: '*Mynychu'r Caffi'n **rheolaidd***' a '*Cael hwb i fynd allan yn **rheolaidd***'. Mae'r ffaith y bydd y Caffi'n cynnig rhywle i gyfarfod, cael paned a sgwrsio yn anffurfiol ac yn dynfa i dynnu bobl allan. Mae hyn yn elfen benodol o'r rôl i wirfoddolwyr lle bydd rhai ohonynt yn cynorthwyo gydag arlwyo yn y Caffi – paratoi paneidiau, byrbrydau, cacennau a phrydau o fwyd poeth yn rheolaidd. Eisoes, mae'r gwaith o hyfforddi rhai o'r darpar

wirfoddolwyr yn cymryd lle drwy gynnig hyfforddiant mewn Rheolau Iechyd a Diogelwch a Hylendid Bwyd.

Mae'n ymddangos o'r ymatebion a gafwyd bod yr elfen o osgoi teimlo'n unig yn fwy amlwg yn y grŵp dros 65 oed, er mae rhai o'r grwpiau oed 20-60 hefyd yn nodi hyn fel ffactor.

Dyma rhai sylwadau gan y darpar wirfoddolwyr:

*Er bod yr hen ysgol bellach yn ganolfan gymunedol nid ydyw ar agor ar gyfer cyfarfod a chymdeithasu.*

*Er bod Tafarn y Fic ar agor gyda'r nos ar benwythnosau, nid pawb sydd eisiau mynd i dafarn, ac nid ydyw ar agor yn ystod y dydd.*

*Un o'r disgwyliadau mwyaf am y Caffi yw cael lle i fedri dod ynghyd i gymdeithasu.*

Mae canlyniadau'r arolwg (Atodiad 2) yn dangos bod 100% o'r gwirfoddolwyr a ddychwelodd holiaduron yn nodi bod cael modd i leihau unigrwydd yn bwysig iddynt a bydd y cyfle i wirfoddoli yn y Caffi yn gyfle i hyn ddigwydd. Yn y deilliant yma, mae'r pellter teithio a ddisgwylir yn gymharol uchel - 59% (h.y. y lefel o newid mae'r gwirfoddolwyr yn disgwyl profi drwy wirfoddoli yn y Caffi). Roedd 100% o'r sampl yn nodi eu bod yn disgwyl profi newid positif felly, fe gynhwysir 20 o wirfoddolwyr yn y map gwerth.

## 7.2 Trigolion Lleol

Mae'r rhan hon o'r dadansoddiad yn ystyried y canlyniadau a'r budd i'r ail brif grŵp o randdeiliaid, sef y trigolion lleol.

### Allbynnau

Fel nodwyd uchod ar gyfer gwirfoddolwyr, mae'r bygythiadau i ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol hyfyw yn niferus. Gwnaed datganiad gan Lywodraeth Cymru i gyfarch y mater yma yn 2017 gan ddatgan uchelgais o gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Ers hynny, fe gafwyd gwaith ymchwil eang gan adnabod yr angen i edrych yn fanylach ar rôl mentrau cymunedol i gynnal a hybu defnydd o'r Gymraeg. Yn y cyhoeddiad - *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr - Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso* – (Ebrill 2022[10]) – fe nodir yr angen i gynnal gwaith pellach i adnabod effaith mentrau cymunedol ar gynnal yr iaith Gymraeg yn gymunedol fel rhan o'r nod i hybu seilwaith economaidd gymdeithasol cymunedau Cymraeg.

- *Potensial mentrau cydweithredol cyfrwng Cymraeg wedi eu datblygu er budd ffyniant cymunedau.*
- *Twf mewn swyddi da (a gyrfaoedd da i ganiatáu i bobl symud o swydd i swydd), sy'n galluogi pobl ifanc i aros yn eu cymunedau neu, os ydynt yn gadael am brofiadau bywyd gwahanol, i ddychwelyd i'r ardaloedd hyn i fyw a magu teulu.*

Daeth yn glir wrth siarad gyda'r trigolion lleol bod yr angen i gael adnodd hwylus yn y pentref lle mae modd i drigolion alw heibio am sgwrs a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn bwysig i'w hiechyd meddwl ac yn achos rhai i leihau teimlad o

10 https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2022-11/cymraeg-2050-miliwn-o-siaradwyr-fframwaith-ymchwil-a-gwerthuso.pdf


unigrwydd. Yn ogystal, roedd rhai trigolion yn ystyried bod yr angen i gerdded i'r Caffi a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn gymorth tuag at gynnal eu hiechyd corfforol.

Yn Tabl 3 (tudalen 37) fe nodir bod 150 o drigolion lleol yn cael eu targedu ar gyfer defnyddio'r Caffi'n rheolaidd. Cafwyd ymatebion uchel gan drigolion lleol. Roedd holiadur a gynhaliwyd gan y sefydliad ei hun ym mis Medi 2024 wedi'i lenwi gan 51 o drigolion lleol, ac roedd yr holiadur a rannwyd yn benodol ar gyfer yr asesiad yma o werth cymdeithasol wedi'i ddychwelyd gan 20 o drigolion lleol sef maint sampl o 13%. Roeddem yn eithaf hyderus bod y canran yma o ymatebion yn adlewyrchiad eithaf clir o ddisgwyliadau'r darpar ddefnyddwyr. Felly, cynhwyswyd y rhif llawn o 150 yn y Map Gwerth. Mae'n bwysig pwysleisio wrth gwrs mai disgwyliadau yw'r rhain, ond maent yn dangos yn gwbl glir yr hyn a ddisgwylir ar adeg cynnal yr asesiad cyn agor y Caffi. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus hefyd i'r canfyddiad hwn yn y dadansoddiad sensitifrwydd, a dyna pam y darperir y gwerth posibl o fewn ystod. Yn ein barn ni, dyma'r ffordd fwyaf priodol i beidio â hawlio gormod na hawlio gwerth am y rhagolwg.

Cynhaliwyd dau grŵp ffocws gyda grwpiau o drigolion i nodi a chadarnhau canlyniadau, yn ogystal â sgyrsiau un-i-un gyda thri o'r preswylwyr. Roeddem wedi cyrraedd pwynt dirlawnder ar ôl siarad â thri o drigolion. Mae hyn yn golygu nad oedd unrhyw wybodaeth newydd yn cael ei datgelu, ac roeddem yn hyderus na fyddem yn clywed unrhyw wybodaeth newydd bellach wrth siarad â mwy o drigolion. Ar ôl cyrraedd pwynt o dirlawnder yn y sylwadau, lluniwyd Theori Newid (TOC) yn dangos y prif ddeilliannau a'r llwybrau tuag atynt a gwiriwyd y TOC gyda grŵp o drigolion (ATODIAD 3).

## Deilliannau

### Deilliant 4 – Teimlad o Berthyn i Gymuned i drigolion lleol




Fe eglurwyd uchod -Deilliant 1 (tudalen 48) fel roedd yr ymdeimlad o berthyn i gymuned sydd dan fygythiad yn tynnu pobl at ei gilydd ac yn ysgogiad i rai pobl i wirfoddoli yn y Caffi. Mae ymdeimlad y grŵp o drigolion lleol a ymgysylltwyd â nhw yn dangos yr un ymdeimlad o fod eisiau cael cyfle i gymdeithasu yn lleol ac i gynnal y gymuned Gymraeg y maent yn byw ynddi. Dyma rai o sylwadau'r trigolion:

*'Yn y pentref, nid oes darpariaeth arall, felly, mae'r hyn sy'n cael ei gynnig gan Hafod Ceiri yn bwysig iawn i ddatblygu a gwella'r ysbryd cymunedol.'*

*'Mae o yn Llithfaen ei hun, yn lleol, rydach chi'n cael gweld pobol yr ydach chi'n eu nabod.'*

*'Mae Person A wedi byw yn Llithfaen am ddeugain mlynedd ac wedi gweld llawer o fynd a dod a llanw a thrai yn ystod y cyfnod hwnnw. Erbyn hyn mae'n braf gweld nifer o deuluoedd ifanc a phlant Cymraeg eu hiaith yn byw yn y pentref. Mae hyn yn braf iawn i weld ac yn rhoi hwb a chodi'r ysbryd.*

*Bydd cael ased newydd yn y pentref yn ychwanegu at yr ysbryd positif o gynnal y gymuned Gymraeg dros y cyfnod nesaf a'r blynyddoedd i ddod.'*

*'Ar stepan drws, cyfleus a dim gwaith trefnu – gwarchod neu fenthyg car.'*

---

Un elfen ychwanegol a ddaeth i'r amlwg gyda'r grŵp yma oedd yr awydd i gynnal y gymdeithas er budd pobl ifanc ac yn benodol i gynnig cyflogaeth iddynt yn lleol yn y Caffi.


---

*'Byddai'r Caffi yn gallu cynnig cyfle am waith yn y pentref yn arbennig i bobl ifanc.'*

---

Mae canlyniad yr arolwg (Atodiad 4) yn nodi bod **100%** o'r rhai a holwyd yn y sampl yn teimlo y bydd mynychu'r Caffi yn arwain at newidiadau positif o safbwynt perthyn i gymuned, gyda **69%** o bellter teithio (lefel y newid a brofir gan y trigolion, yr uchaf yw'r canran, yr uchaf yr effaith). Roedd **100%** o'r sampl wedi nodi newid positif, felly, fe nodwyd **150** o drigolion yn y map gwerth ar gyfer y deilliant yma.


## Deilliant 5 – Teimlo’n llai unig




Mae'r canlyniad hwn yn ymddangos yn syml iawn o ran llwybr effaith. Mae hynny'n wir! Serch hynny, roeddem o'r farn ei bod yn bwysig ei gynnwys yn yr asesiad hwn fel canlyniad ar wahân. Mae’r gweithgaredd o gerdded i’r Caffi yn un amlwg sydd angen ei wneud gan yr unigolyn neu gyda chymorth, ond heb y cymhelliad o fod eisiau mynd i’r Caffi, mae’n bosibl na fyddai’r unigolyn yn gadael y tŷ ac felly’n teimlo’n fwy unig. Er bod Tafarn y Fic ar agor gyda’r nos, mae’r ffaith y bydd y Caffi ar agor yn ystod y dydd fel lle i bobl alw heibio ac i gymdeithasu yn elfen allweddol i rai pobl fydd yn gallu manteisio ar hyn i deimlo’n llai unig.

Ceir trafodaeth a dadansoddiad ar wefan *Mind Cymru*[11] o rai o nodweddion, achosion a datrysiadau posibl i ananwsterau ynghylch unigrwydd a theimlo’n unig.

Mae’r teimlad o fod yn unig yn gallu arwain at ddirywiad mewn iechyd meddwl; a hynny yn ei dro yn arwain ar deimlo’n fwy unig, fel cylch :




[11] https://www.mind.org.uk/cy/gwybodaeth-a-chefnogaeth/unigrwydd/ynglyn-ag-unigrwydd/

Awgrymir nifer o ffyrdd sy'n gallu helpu unigolion i deimlo'n well gan gynnwys:

- Mae rhai pobl yn ei gweld hi'n ddefnyddiol bod mewn amgylchedd lle mae llawer o bobl o gwmpas. Er enghraifft, siopau coffi, llyfrgelloedd neu ganolfannau siopa. Gall teimlo presenoldeb pobl eraill helpu gyda rhai teimladau o unigrwydd.
- Gall fod o gymorth i sefydlu trefn, lle byddwch chi'n mynd i'r un llefydd ar yr un pryd. Efallai y byddwch chi'n dechrau adnabod pobl yn y llefydd hyn, a all arwain at ffurfio cysylltiadau.

Dyma rai o'r sylwadau a gafwyd o'r Grŵp Ffocws ar 29 Ebrill 2024:

*'Mae modd cymdeithasu yn y Ganolfan pan fo digwyddiad yn cymryd lle yn arbennig, ond nid oes modd jyst cwrdd am baned a sgwrs yno.*

*Er bod Tafarn y Fic ar agor gyda'r nos ac ar benwythnosau, nid pawb sydd eisiau mynd i dafarn, ac nid ydyw ar agor yn ystod y dydd.*

*Yr hyn dan ni angen yw rhywle sydd yn braf i alw heibio am baned a sgwrs a bod teimlad lleol a chymunedol i'r lle.*

*Mae'n bwysig cael rhywle i dynnu pobl allan o'u tai yn ystod y dydd i gael paned a chymdeithasu er mwyn eu llesiant a'u hiechyd meddwl.*

*Mae cael rhywle hwylus lle'r oedd pobl yn medru cerdded o'u cartrefi yn bwysig.*

*Nid yw teithio i gaffis eraill yn opsiwn i rai gan fod trafnidiaeth gyhoeddus yn brin.'*


A’r sylwadau yma gan un o drigolion y pentref:

*‘Since being a widow, I feel alone in the village, and having a meeting place to drop in would be really beneficial to alleviate the feeling of loneliness.*

*Just having somewhere in the village where I’d be able to call in for a paned and chat would be great’*

Mae canlyniad yr arolwg (Atodiad 4) yn nodi bod **70%** o’r rhai a holwyd yn y sampl yn teimlo y bydd mynychu’r Caffi yn arwain at newidiadau positif o safbwynt teimlo’n llai unig, gyda **48%** o bellter teithio (lefel y newid a brofir gan y trigolion, yr uchaf yw’r canran, yr uchaf yr effaith). Roedd **70%** o’r sampl wedi nodi newid positif, felly, fe nodwyd **105** o drigolion yn y map gwerth ar gyfer y deilliant yma.

## Deilliant 6 – Gwella Iechyd Corfforol




Bydd y Caffi yn darparu lle braf a chlud i gymdeithasu, cael prydau a byrbrydau bwyd maethlon, ac ar agor yn ystod y dydd. Bydd modd i drigolion alw heibio ar hap ac i gael sgwrs a phaned. Ni fydd rhaid iddynt deithio i Nefyn, Pwllheli a thu hwnt er mwyn medru dod o hyd i gwmni a bydd yn adnodd hwylus ar eu stepen drws. Nid pawb sydd yn medru teithio’n hawdd o Llithfaen gan fod rhai trigolion heb gar ac mae’r ddarpariaeth o ran

gwasanaeth bysiau cyhoeddus yn brin. Canlyniad hyn bydd denu rhai trigolion i gerdded yn rheolaidd ac i fanteisio ar fwydlen faethlon y Caffi newydd pan fydd yn agor.


Dyma oedd gan rai o'r trigolion i'w ddweud ym mis Ebrill 2024. Roedd llawer o syniadau gan bobl am yr arlwy y gellid ei gynnig yn y Caffi –

*"Diodydd amrywiol gyda mashmallows, crempogau a chacennau a bwydydd iach.*

*Cyfle i roi cynnig ar themâu a phrydau arbennig fel Cinio Dydd Sul a Swper Chwarel."*

Mae canlyniad yr arolwg (Atodiad 4) yn nodi bod **40%** o'r rhai a holwyd yn y sampl yn teimlo y bydd mynychu'r Caffi yn arwain at newidiadau positif o safbwynt iechyd corfforol, gyda **69%** o bellter teithio (lefel y newid a brofir gan y trigolion, yr uchaf yw'r canran, yr uchaf yr effaith). Roedd **40%** o'r sampl wedi nodi newid positif, felly, fe nodwyd **60** o drigolion yn y map gwerth ar gyfer y deilliant yma.

## Deilliant 7 – Gwella Iechyd Meddyliol




Dywedodd pawb a atebodd yr holiadur eu bod yn rhagweld y bydd y Caffi yn fodd o wella eu hiechyd meddwl. Y prif agweddau sy'n deillio o'r canlyniad hwn yw y bydd y Caffi yn lle cyfleus a braf i gymdeithasu, cael lluniaeth a phaned ar garreg y drws yng nghanol y pentref yn ystod y dydd.

Elfen arall yw'r cyfle i leihau straen y gymuned ynghylch diweithdra. Mae ystadegau wedi dangos bod y gyfradd ddiweithdra yng Ngwynedd wedi cynyddu erbyn diwedd 2023 gan fod 3.5% o bobl dros 16 oed yn ddi-waith o gymharu â 2.5% erbyn diwedd 2022 (ONS, 2024[12]). Gall byw mewn pentref gwledig lle mae trafnidiaeth gyhoeddus yn brin gael effaith ar gyflogaeth gan ei fod yn cyfyngu ar fynediad i gyfleoedd gwaith, sgiliau a seilwaith amrywiol (Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi, 2024[13]). Fel y nodwyd eisoes, mae trigolion yr ardal wedi mynegi pa mor anodd fu cael mynediad i weithgareddau ac adnoddau yn yr ardal. Mae hyn wedi creu pryder a straen i rai rhieni a gofalwyr a hoffai weld mwy o gyfleoedd ar gael i'w plant a'u pobl ifanc. Disgwylir i ddatblygiad caffi Hafod Ceiri ddarparu cyfleoedd gwaith i bobl ifanc a fydd yn adeiladu eu sgiliau a hyder ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn lleihau'r pryder a'r straen i rieni a gofalwyr.

Mae rhai o'r dyfyniadau isod yn crynhoi ymatebion y trigolion lleol:

---

*"Gellid trefnu rhai o'r gweithgareddau'n arbennig i blant a chriw o bobl hŷn"*

*"Mae cynnal cymuned Gymraeg yma yn bwysig i ni o ran iechyd meddwl."*

*"Byddai'r Caffi yn gallu cynnig cyfle am waith yn y pentre' yn arbennig i bobl ifanc."*

---

Mae canlyniad yr arolwg (Atodiad 4) yn nodi bod **100%** o'r rhai a holwyd yn y sampl yn teimlo y bydd mynychu'r Caffi yn arwain at newidiadau positif o safbwynt perthyn i gymuned, gyda **69%** o bellter teithio (lefel y newid a brofir gan y trigolion, yr uchaf yw'r

[12] Office for National Statistics (ONS) (2024) 'Employment, unemployment and economic inactivity in Gwynedd.' Gwynedd's employment, unemployment and economic inactivity - ONS
[13] House of Lords Library (2024) 'Rural communities: Issues and support.' Rural communities: Issues and support - House of Lords Library

canran, yr uchaf yr effaith). Roedd **100%** o'r sampl wedi nodi newid positif, felly, fe nodwyd **150** o drigolion yn y map gwerth ar gyfer y deilliant yma.

## Deilliannau negyddol posibl

Fe nodwyd gan un o'r trigolion bod y ffordd drwy Llithfaen yn eithaf prysur yn y gaeaf ac yn fwy prysur yn y Gwanwyn, haf a'r Hydref, yn enwedig ar gyfnodau gwyliau ysgol a gwyliau banc. Roedd parcio yn y stryd yn broblem ar adegau, a byddai mwy o geir yn parcio wrth i bobl ddefnyddio'r Caffi.

Yn ystod y drafodaeth gyda'r rhanddeiliaid, fe awgrymwyd y gallai pobl y pentref oedd yn medru cerdded i'r Caffi wneud hynny er mwyn lliniaru'r broblem o barcio gormodol ar y stryd. Roedd hyn yn un o fanteision y Caffi sef ei fod yn denu pobl i gerdded ac ymarfer yn gorfforol drwy gerdded i ac o'r Caffi. Byddai hyn yn ffordd o godi ymwybyddiaeth trigolion lleol am gynnal a gwella iechyd corfforol, ochr yn ochr â chynnig bwyd maethlon yn y Caffi.

Cafwyd sylwadau gan rai bod denu gwirfoddolwyr newydd yn anodd a bod rhai gwirfoddolwyr yn teimlo straen wrth ymgymryd â rhai o'r tasgau fel rhan o'r tîm sydd wedi bod yn cynnal y gwaith hyd yn hyn ac o bosibl, pan fydd y disgwyliadau'n cynyddu yn dilyn agor y Caffi.

Gellid cyfarch y materion yma drwy drefnu hyfforddiant a chefnogaeth i'r gwirfoddolwyr a thrwy raglennu'r gwaith gwirfoddoli fel bod amrywiaeth o gyfleoedd ar gael i wirfoddolwyr hen a newydd. Mae'r gwaith yma wedi cychwyn eisoes. Eisoes fe gynhaliwyd sesiwn hyfforddiant a chyflwyniad i wirfoddolwyr gan gydlynydd y Caffi. Bydd modd adeiladu ar y ddarpariaeth yma wrth i anghenion y gwirfoddolwyr a'r gweithgareddau yn y Caffi ddatblygu dros y flwyddyn nesaf ac i'r dyfodol.

# 8.0 Sut mae'r deilliannau'n berthnasol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)?

## Beth yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)?

*"Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn helpu'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf i feddwl am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau a dilyn dull gweithredu cyson.Bydd hyn yn ein helpu ni i greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant."*[14]

## Nodau llesiant




[14] https://www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html

## 8.1 Gwirfoddolwyr

Mae'r deilliannau a adnabuwyd ar gyfer y gwirfoddolwyr yn ymwneud ag ymdeimlad o berthyn a chryfhau'r gymuned a chynnal a chryfhau'r defnydd o'r iaith Gymraeg a diwylliant. Teimla'r gwirfoddolwyr a'r darpar wirfoddolwyr y bydd y Caffi yn medru cyfrannu'n sylweddol at gyflawni hyn iddynt hwy, y trigolion lleol ac i raddau i ymwelwyr â'r ardal. Mae'n bridol i ystyried y bydd y pedwar prif ddeilliant a ddisgwylir i gael ei brofi gan y gwirfoddolwyr yn cyfrannu tuag at y nod llesiant o *Cymru o Gymunedau Cydlynus*, sef, '*Pobl yn weithgar yn eu cymunedau: Creu'r amodau lle gall pobl a chymunedau wneud y pethau sy'n bwysig iddynt hwy'*. Disgwylir y bydd y gwaith a wnaed hyd yn hyn gan rai gwirfoddolwyr a'r gwaith o gyfrannu tuag at weithgareddau'r Caffi dros y blynyddoedd nesaf yn debygol o gyfrannu'n sylweddol tuag at y nod llesiant yma.

## 8.2 Trigolion Lleol



Disgwylir y bydd trigolion lleol yn profi nifer o fuddion ac fe adnabuwyd pedwar o ddeilliannu posibl. Y prif ddeilliant ar gyfer gwirfoddolwyr a thrigolion lleol oedd y deilliant o '*Deimlad o berthyn i gymuned'*. Felly, mae disgwyl i'r Caffi gyfrannu tuag at yr un nod llesiant â'r gwirfoddolwyr sef *Cymru o Gymunedau Cydlynus* ac hefyd *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*.

Yn ogystal, disgwylir y bydd trigolion lleol yn profi nifer o fuddion eraill ac fe adnabuwyd pedwar o ddeilliannu posibl. Yn eu plith mae disgwyl iddynt brofi gwelliant yn eu hiechyd meddyliol a chorfforol. Mae'r deilliannau yma'n cyfrannu tuag at y nod llesiant o '*Cymru iach*ach' sef '*Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol'*.



# 9.0 Gwerth Deilliannau

Y gwahaniaeth rhwng defnyddio SROI a fframweithiau eraill yw ei fod yn rhoi gwerth ariannol ar y deilliannau hyn. Mae defnyddio gwerth ariannol, nid yn unig yn caniatáu i ni roi hanes yr hyn sy'n newid ym mywydau pobl ond hefyd yn ein galluogi i roi gwerth ar y newidiadau hyn fel y gallwn gymharu costau a chanlyniadau. Nid yw hyn yn ymwneud â rhoi pris ar bopeth, ond mae'n caniatáu inni ddangos pa effaith y mae'r gwasanaeth yn ei gael ar randdeiliaid eraill a'r arbedion posibl y gall ymyriad eu creu. Mae hefyd yn mynd y tu hwnt i fesur ac yn galluogi sefydliadau i reoli eu gweithgareddau i sicrhau bod yr effaith orau bosibl yn cael ei chreu ar gyfer y rhai sydd bwysicaf iddynt, y cyfranogwyr.

## Effeithiau'r prosiectau

Mae dadansoddiad SROI yn defnyddio egwyddorion cyfrifyddu derbyniol i gyfrifo effaith gyffredinol gweithgareddau. O ystyried unrhyw nodau gwrthffeithiol, priodoliad, dadleoli, a ffactorau gollwng, bydd y dadansoddiad SROI yn osgoi gorhawlio gwerth nad yw'n ganlyniad i weithgareddau Caffi Hafod Ceiri. Mae'r blychau isod yn amlinellu pob un o'r ffactorau effaith.

### Gwrthffeithiol

Mae hwn yn gofyn am y tebygolrwydd y gallai deilliant fod wedi digwydd heb i weithgaredd ddigwydd. Felly, er enghraifft, os credir bod 10% o siawns y gallai rhywun fod wedi dod o hyd i waith heb raglen hyfforddi, mae gwerth y deilliant hwnnw'n gostwng 10%.

## Priodoli

Yn ystyried pa gyfran o ganlyniad sy'n cael ei chreu gan sefydliadau/unigolion eraill, felly ni ellir ei hawlio'n gyfreithlon gan y dadansoddiad SROI. Er enghraifft, os yw asiantaethau allanol hefyd yn cefnogi rhywun sy'n cael hyfforddiant, mae'r sefydliad hwnnw yn gyfrifol am greu rhywfaint o'r gwerth, nid y sefydliad hyfforddi yn unig.

## Dadleoli

Mae hwn yn gofyn a oedd deilliant wedi dadleoli deilliannau tebyg mewn mannau eraill. Nid yw hwn bob amser yn fesur effaith angenrheidiol ond dylid ei ystyried. Er enghraifft, os yw prosiect yn lleihau gweithgarwch troseddol mewn un ardal, sy'n arwain at gynnydd mewn lleoliadau eraill, mae angen ystyried y deilliannau dadleoli.

## Gollwng

Rhaid i ganlyniadau a ragamcanir ar gyfer mwy na blwyddyn ystyried y gyfradd gollwng. Dyma'r gyfradd y mae'r gwerth y gellir ei briodoli i ffocws y dadansoddiad SROI yn lleihau. Er enghraifft, gall unigolyn sy'n cael hyfforddiant cyflogaeth yn y flwyddyn gyntaf o gyflogaeth briodoli'r holl werth i'r sefydliad hyfforddi, ond wrth iddo symud ymlaen yn ei yrfa mae llai o werth yn perthyn i'r fenter gychwynnol oherwydd ei brofiadau newydd.

## Procsi ariannol

Mae amrywiaeth o ddulliau o roi gwerth ariannol ar ganlyniadau gan gynnwys ffafriaeth a ddatgelwyd sy'n defnyddio procsi ariannol – hynny yw defnyddio dewis arall sy'n seiliedig ar y farchnad fel brasamcan o werth y rhanddeiliaid. Fodd bynnag, byddai rhai'n dadlau nad yw'r rhain yn cynrychioli'r gwerth y byddai'r rhanddeiliad penodol sydd â phrofiad o'r newid yn ei briodoli iddo. Felly, lle bo modd, mae'r dadansoddiad hwn wedi cymhwyso'r egwyddor SROI gyntaf i gynnwys rhanddeiliaid cymaint â phosibl. Felly, gofynnwyd iddynt roi eu canlyniadau yn nhrefn pwysigrwydd ac yna i raddio eu pwysigrwydd allan o 10. Yn y data

meintiol, gofynnwyd hefyd i wirfoddolwyr a thrigolion gadarnhau pwysigrwydd unrhyw newidiadau yn yr arolwg. Dyma lle rhoesom y gorau i'w cynnwys yn y broses o werthfawrogi eu canlyniadau. Penderfynwyd bod defnyddio prisiadau llesiant yn fwy priodol ar gyfer y dadansoddiad hwn.

Cymerwyd y prisiadau a'r procsis ar gyfer y deilliannau a nodwyd ar gyfer y **gwirfoddolwyr** o Social Value Engine (SVE), mae SVE yn gweithio ochr yn ochr ac mae wedi cyfuno methodoleg Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) ac wyth egwyddor gwerth cymdeithasol, ac mae meddalwedd Social Value Engine wedi ennill statws 'meddalwedd achrededig' gan Social Value International[15]. Mae'r SVE yn dibynnu ar ymchwil a methodolegau cadarn i sicrhau cywirdeb a dibynadwyedd ei gyfrifiadau. Mae gwerthoedd procsi yn deillio o ffynonellau credadwy ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i adlewyrchu'r amodau economaidd presennol a theori gwerth cymdeithasol[16]. Rhoddwyd llawer o ystyriaethau i'r procsi cywir i'w ddefnyddio ar gyfer pob grŵp rhanddeiliaid.

Mae'r gwerthusiadau a procsis ar gyfer y deilliannau a adnabuwyd ar gyfer gwirfoddolwyr a thrigolion lleol wedi'u cymryd o fesurydd a sefydlwyd gan gymdeithasau tai - The Housing Association's Charitable Trust (HACT). Mae'r mesurydd yn seiliedig ar waith Ymchwil sylweddol a methodoleg gadarn i sicrhau cywirdeb a dibynadwyaeth y cyfrifiannau. Sefydlir gwerthoedd procsi ar wybodaeth craidd dibynadwy ac fe'u hadolygir yn rheolaidd gan adlewyrchu'r sefyllfa economaidd gyfredol a damcaniaeth gwerth cymdeithasol. Rhoddwyd cryn ystyriaeth i'r procsi mwyaf addas i'w ddefnyddio ar gyfer y ddau grwp o randdeiliaid.

Dewiswyd y procsi yma ar gyfer gwirfoddolwyr – '*Regular volunteering outside of London for over 50s'* allan o *HACT Social Value Bank* sy'n rhoi gwerth o £3,474 ar gyfer y mesurydd yma. Penderfynwyd defnyddio'r procsi yma gan bod 60% o'r rhai a ddychwelodd ffurflenni

[15]https://socialvalueengine.com/about-us-accreditations-and-partnerships/
[16]https://socialvalueengine.com/platform

gwirfoddoli dros 50 oed. Gweler Ffigur 6 ar dudalen 38. Yna, fe gyfrifwyd y pellter teithio, pwysigrwydd a roddwyd gan y gwirfoddolwyr eu hunain ac yna fe ddefnyddiwyd pwysigrwydd y deilliannau i gymharu'r deilliannau gyda'r gwerth angori. Mae 'angori' yn cyfeirio at ddefnyddio 'gwaelodlin' i amcangyfrif canlyniadau gwerth cymdeithasol. Y gwerth angori oedd 'Teimlad o berthyn i gymuned' gan mai hwn a gafodd y gwerth uchaf gan y gwirfoddolwyr sef 8 allan o 10. Defnyddiwyd hyn fel 'llinell sylfaen' wrth gymharu'r canlyniadau eraill ar gyfer gwirfoddolwyr er mwyn osgoi gor-hawlio.

Defnyddiwyd yr un fethodoleg i sefydlu procsi ar gyfer **trigolion lleol** ag a wnaed ar gyfer sefydlu procsi ar gyfer gwirfoddolwyr. Y procsi a farnwyd yn fwyaf addas ar gyfer trigolion lleol oedd '*Feeling belonging to a neighbourhood outside of London for over 50s'* gyda gwerth £6,004 a gymerwyd allan o HACT Social Value Bank. Gellid dadlau y dylid defnyddio'r procsi yma ar gyfer gwirfoddolwyr hefyd gan ei fod yn glir bod 'perthyn i gymdogaeth' yn un o'r prif gymhellion ar gyfer gwirfoddolwyr. Mae'r gwerth ar y procsi yma'n sylweddol uwch na'r un ar gyfer gwirfoddoli, felly, yn unol ag egwyddor 5 gwerth cymdeithasol o beidio gor-hawlio, fe ddefnyddiwyd y procsi '*Regular volunteering'* ar gyfer y gwirfoddolwyr gan ei fod yn berthnasol ac yn llai o ran gwerth.

Daw'r gwerth angori ar gyfer trigolion lleol o'r deilliant 'Teimlad o berthyn i gymuned' yr un fath â'r deilliant ar gyfer gwirfoddolwyr gan ddilyn yr un rhesymeg o fod yn gwerth uchaf gan y trigolion lleol sef 9 allan o 10.

Gweler isod yn Nhabl 8 y gwerthoedd a roddwyd i bob deilliant ar gyfer y ddau grŵp o randdeiliaid.

*Tabl 8 Gwerthuso Deilliannau*

| Grŵp Rhanddeiliaid | Deilliannau | Pellter Teithio | Pwysiad Cyfartalog | Gwerth yn y Map Gwerth |
|---|---|---|---|---|
| **Gwirfoddolwyr** | Teimlad o berthyn i gymuned | 59% | 8 | £2,050 |
| | Teimlad o bwrpas | 38% | 7.5 | £1,922 |
| | Lleihau unigrwydd | 59% | 5.5 | £1,409 |
| | | | | |
| **Trigolion** | Teimlo'n unig | 48% | 6.5 | £2,992 |
| | Teimlad o berthyn i gymuned | 69% | 9 | £4,143 |
| | Gwella iechyd corfforol | 69% | 6 | £2,762 |
| | Gwella iechyd meddyliol | 64% | 7.5 | £3,452 |

# 10.0 Sefydlu Effaith

Er mwyn asesu gwerth cyffredinol deilliannau Caffi Hafod Ceiri mae'n bwysig sefydlu faint yn benodol fydd o ganlyniad i'r adnodd a‘r gweithgareddau yn y Caffi. Mae SROI yn cymhwyso egwyddorion cyfrifeg derbyniol i ddisgowntio'r gwerth yn unol â hynny, trwy ofyn: beth fyddai wedi digwydd beth bynnag (gwrthffeithiol), beth yw cyfraniad eraill (priodoliad), a yw'r gweithgareddau wedi dadleoli gwerth o rywle arall (dadleoliad)? Os rhagwelir y bydd deilliannau yn para mwy na blwyddyn, beth yw'r gyfradd y mae'r gwerth a grëir gan brosiect yn lleihau dros y blynyddoedd i ddod (gostyngiad)? Mae cymhwyso'r pedwar mesur hyn yn creu dealltwriaeth o gyfanswm gwerth net y deilliannau ac yn helpu i gadw at yr egwyddor o beidio â gorhawlio.

Rhoddwyd cyfradd ddisgownt isel, canolig ac uchel i bob egwyddor gostyngiad gwerth, yn dibynnu ar yr effaith a grëwyd gan eraill.

Isel = 30%

Canolig = 60%

Uchel = 90%

## 10.1 Gwrthffeithiol

Mae gwrthffeithiol yn ein galluogi i ystyried beth fyddai'n digwydd pe na bai'r gwasanaeth ar gael. Mae yna bosibilrwydd bob amser y byddai’r cyfranogwyr wedi cael yr un deilliannau trwy weithgaredd arall neu drwy gael cymorth yn rhywle arall.

## Gwirfoddolwyr

*Tabl 9 - Gwrthffeithiol Gwirfoddolwyr*

| Deilliannau | Gwrthffeithiol | Cyfiawnhad |
|---|---|---|
| Teimlad o berthyn i gymuned | 30% | Er bod rhai yn gwirfoddoli yn y Siop Gymunedol yn y pentref, nid oes unrhyw le y gall gwirfoddolwyr gyfrannu tuag at gynnal ysbryd y gymuned. Roedd y rhai a holwyd yn edrych ymlaen at gael cyfle i wneud hyn yn y Caffi. Felly rhoddwyd asesiad gwrthffeithiol isel. |
| Teimlad o bwrpas | 30% | '*Dwi isho helpu i wneud rhywbeth yn y gymuned*.' Roedd y teimlad yma'n bwysig i nifer a holwyd. Maent yn gweld y Caffi fel canolbwynt i weithgareddau amrywiol, newydd a chyffrous. Felly, rhoddwyd asesiad isel. |
| Lleihau unigrwydd | 30% | Er bod y Siop yn y pentref ar agor am gyfnodau yn ystod y dydd a bod Tafarn y Fic ar agor gyda'r nos, roedd nifer yn teimlo bod angen rhywle sydd yn cynnig cyfle i wirfoddoli mewn lle cyfforddus, clud ac yn cynnig gweithgareddau. Nid oedd teithio i Bwllheli a mannau eraill yn opsiwn realistig i nifer. Felly, rhoddwyd asesiad isel i'r deilliant yma hefyd. |

## Trigolion Lleol

Yn yr un modd â'r gwirfoddolwyr, fe rhoddwyd asesiad isel o 30% i bob un o'r deilliannau ar gyfer y trigolion. Un o'r elfennau a nodwyd amlaf gan y trigolion oedd y ffaith y bydd y Caffi yn rhoi bywyd newydd yn y pentref yn ystod y dydd. Nododd rhai bod Tafarn y Fic yn le hwylus, ond ei fod yn gallu bod yn swnllyd a dim ond ar agor yn y nos. Pwysleisiwyd yr

angen i gael lle clud yng nghanol y pentref sydd ar agor yn ystod y dydd lle y gellid picio am sgwrs ac i gael diod a lluniaeth maethlon. Byddai'n ysgogiad i rai sy'n teimlo'n unig i gymdeithasu, ac i eraill, nid oedd teithio i rywle arall yn opsiwn realistig. Nid oes darpariaeth o'r math yma ar gael ar hyn o bryd.

## 10.2 Priodoliad

Mae priodoli yn ein galluogi i gydnabod cyfraniad eraill tuag at gyflawni deilliannau. Mae posibilrwydd bob amser y bydd eraill yn cyfrannu at unrhyw newidiadau ym mywydau pobl megis aelodau o'r teulu neu sefydliadau eraill. Felly, fe ddefnyddiwyd yr ystod isod i wneud asesiad o effaith profiadau a chyfleoedd eraill gan roi sgôr allan o 100 i'r pedwar deilliant ar gyfer gwirfoddolwyr a thrigolion:

- Nid oes unrhyw un o'r newidiadau oherwydd eraill – 20% (yn lle 0% i osgoi gorhawlio)
- Mae rhai o'r newidiadau o ganlyniad i eraill - 20%
- Mae cryn dipyn o'r newidiadau o ganlyniad i eraill - 40%
- Mae llawer o'r newidiadau o ganlyniad i eraill - 60%
- Mae'r holl newidiadau o ganlyniad i eraill - 80%

### Gwirfoddolwyr

Cafwyd sylwadau gan rai o'r gwirfoddolwyr eu bod eisoes yn gwirfoddoli yn y Siop a'r Ganolfan ar adegau – 'Wedi elwa gan waith gwirfoddoli yn y gorffennol..' Yn yr asesiad yma rydym yn son am 18 o wirfoddolwyr – felly, ystyriwyd bod angen bod yn ofalus i beidio gorhawlio gwerth cymdeithasol ar yr elfen yma.

Mae'r Tabl isod yn dangos ein bod wedi nodi lefel eithaf uchel o briodoliad (h.y. bod eithaf tipyn – 60% o'r deilliannau yn cael eu cyrraedd oherwydd bod cyfleoedd eraill i wirfoddoli ac y bydd gweithgareddau gwirfoddoli yn y Caffi  yn cyfrannu tuag at brofi 40% o'r deilliannau). Mae'r Tabl hefyd yn dangos yr esboniad dros y lefel o briodoliad ac wedi'i seilio ar ddata a

gwybodaeth meintiol ac ansoddol a gasglwyd yn ystod yr ymgynghori. Hyn er mwyn sicrhau and ydym yn gorhawlio na thanhawlio.

*Tabl 10 - Priodoliad Gwirfoddolwyr*

| Deilliant | Priodoliad | Cyfiawnhad |
|---|---|---|
| Teimlad o berthyn i gymuned | 60% | Roedd rhwng 25-50% o'r gwirfoddolwyr yn gwirfoddoli'n barod yn y Siop neu wedi cymryd rhan yn y paratoadau ar gyfer datblygu'r Caffi drwy helpu i godi arian a gwneud gwaith ar y Pwyllgor. Roedd rhai ohonynt yn aneglur faint fyddan nhw'n gwirfoddoli yn Caffi ac yn disgwyl i weld beth fydd y cyfleoedd newydd i wirfoddoli. Felly rhoddwyd asesiad o 60% rhag gorhawlio ar briodoliad. |
| Teimlad o bwrpas | 60% | Roedd rhwng 25-50% o'r gwirfoddolwyr yn gwirfoddoli'n barod yn y Siop neu wedi cymryd rhan yn y paratoadau ar gyfer datblygu'r Caffi drwy helpu i godi arian a gwneud gwaith ar y Pwyllgor. Roedd rhai ohonynt yn aneglur faint fyddan nhw'n gwirfoddoli yn Caffi ac yn disgwyl i weld beth fydd y cyfleoedd newydd i wirfoddoli. Felly rhoddwyd asesiad o 60% rhag gorhawlio ar briodoliad. |
| Lleihau unigrwydd | 60% | Roedd rhwng 25-50% o'r gwirfoddolwyr yn gwirfoddoli'n barod yn y Siop neu wedi cymryd rhan yn y paratoadau ar gyfer datblygu'r Caffi drwy helpu i godi arian a gwneud gwaith ar y Pwyllgor. Roedd rhai ohonynt yn aneglur faint fyddan nhw'n gwirfoddoli yn Caffi ac yn disgwyl i weld beth fydd y cyfleoedd newydd i wirfoddoli. Felly rhoddwyd asesiad o 60% rhag gorhawlio ar briodoliad. |

## Trigolion

Yn achos y trigolion, fe ddychwelwyd 18 o holiaduron a gan bod y cynllun yn targedu 150 o drigolion lleol, ystyriwyd bod yr wybodaeth a gafwyd yn fwy dibynadwy ac yn gliriach o ran disgwyliadau. O'r ymatebion i'r arolwg, roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn nodi bod cryn edrych ymlaen at agoriad y Caffi gan nad oes unrhyw beth tebyg ar gael ar hyn o bryd. Felly, fe roddwyd asesiad o 30% - mae rhai o'r newidiadau o ganlyniad i eraill ar gyfer y deilliannau i drigolion lleol. Gweler y tabl isod o'r lefelau priodoli a'r cyfiawnhad a roddwyd i bob deilliant, roedd hyn yn seiliedig ar ddata meintiol ac ansoddol a gwybodaeth a ddarparwyd drwy gydol y broses ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau nad ydym yn tanhawlio na gorhawlio.

*Tabl 11 - Priodoliad Trigolion*

| Deilliant | Priodoliad | Cyfiawnhad |
|---|---|---|
| Teimlo'n llai unig | 30% | Roedd y trigolion a holwyd yn edrych ymlaen at gael rhywle hwylus i fynychu'n rheolaidd yn y pentref gyda lle braf a chlud i gymdeithasu, cael lluniaeth a diod a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Nid oes adnodd tebyg ar gael ar hyn o bryd. |
| Teimlad o berthyn i gymuned | 30% | Nodwyd gan 100% o'r rhai a holwyd eu bod yn disgwyl y bydd y Caffi'n rhoi ymdeimlad iddynt o berthyn i gymuned. Byddai cael cyfle i gymdeithasu a cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y Caffi yn rheolaidd yn gyfle newydd sydd ddim ar gael ar hyn o bryd ond yn achlysurol. |
| Gwella iechyd corfforol | 30% | Nodwyd y byddai cael prydau bwyd maethlon wedi'u darparu, ysgogiad i gerdded o'u cartrefi i'r Caffi yn rheolaidd a chymryd rhan mewn teithiau cerdded yn cyfrannu'n bositif at eu hiechyd corfforol. |

| | | |
|---|---|---|
| Gwella Iechyd Meddyliol | 30% | Fe nododd 100% o'r rhai a holwyd y byddai'r Caffi yn fodd i wella eu hiechyd meddyliol. Nodwyd y byddai cael prydau bwyd maethlon wedi'u darparu, ysgogiad i gerdded o'u cartrefi i'r Caffi yn rheolaidd a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn cyfrannu'n bositif at eu hiechyd meddyliol. |

## 10.3 Dadleoliad

Mae angen inni ystyried a oedd y deilliannau'n dadleoli deilliannau eraill mewn mannau eraill. Er enghraifft, os ydym yn ymdrin â gweithgarwch troseddol mewn un stryd, a ydym newydd symud y broblem i rywle arall?

Ar gyfer y prosiect hwn nid oedd unrhyw ffactorau dadleoli a ystyriwyd yn briodol yn seiliedig ar ymgysylltu â rhanddeiliaid cynradd ac ymchwil eilaidd, felly cafodd 0% ei gynnwys yn y map gwerth ar gyfer yr holl ddeilliannau ar gyfer pob grŵp rhanddeiliaid.

## 10.4 Hyd y gollwng

Yn y gwerthusiad hwn, rydym yn edrych ar ddwy flynedd rhwng Ebrill 2024 tan Mawrth 2026 ar gyfer yr holl ganlyniadau a ddisgwylir ar gyfer gwirfoddolwyr a thrigolion. Rhagolwg ydi'r asesiad yma, felly, bydd disgwyl i effaith y Caffi gynyddu yn ystod yr ail flwyddyn wrth i'r gweithgareddau gynyddu, ond ar gyfer yr ail flwyddyn rydym yn gosod gostyngiad ar 0% er ein bod yn rhagweld cynnydd er mwyn sicrhau nad ydym yn gorhawlio'r gwerth a grëir.

# 11.0 Canlyniadau SROI

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn cyflwyno deilliannau cyffredinol dadansoddiad SROI o Gaffi Hafod Ceiri. Yn sail i'r deilliannau hyn mae'r wyth egwyddor SROI sydd wedi'u cymhwyso'n ofalus i bob maes o'r dadansoddiad hwn. Mae’r deilliannau’n dangos y cyfraniad cadarnhaol y mae Caffi Hafod Ceiri yn debygol o’i wneud drwy fewnbwn gwirfoddolwyr, Rheolwr, staff a thrigolion lleol i greu newid cadarnhaol yn eu bywydau.

Mae Tabl 12 yn dangos y gwerth tybiannol a grëir ar gyfer pob un o'r rhanddeiliaid a gynhwyswyd y disgwylir iddynt brofi newidiadau sylweddol. Mae’r cyfrifiadau gwerth presennol yn ystyried y gyfradd ddisgownt o 3.5% fel yr awgrymir gan Lyfr Gwyrdd y Trysorlys ar gyfer deilliannau sy’n para mwy na blwyddyn. Mae Tabl 13 yn dangos y gwerth cymdeithasol a grëwyd gan bob grŵp o randdeiliaid.

*Tabl 12 - Prif Ganlyniadau SROI*

| **Cyfanswm y gwerth a grëwyd** | **£** |
|---|---|
| **Cyfanswm y gwerth presennol** | £795,922.78 |
| **Gwerth buddsoddiad** | £237,105.00 |
| **Gwerth presennol net (gwerth presennol llai buddsoddiad)** | £558,817.78 |
| **Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad** | £3.36 |

*Tabl 13 - Gwerth cymdeithasol a grëwyd fesul grŵp rhanddeiliad*

| Rhanddeiliad | Cyfanswm gwerth cymdeithasol |
|---|---|
| **Gwirfoddolwyr** | £29,884.04 |
| **Trigolion** | £793,373.07 |

# 12.0 Dadansoddiad Sensitifrwydd

Mae'r deilliannau'n dangos y gwerth sylweddol iawn y disgwylir i Gaffi Hafod Ceiri ei greu ac maent yn seiliedig ar gymhwyso egwyddorion y fframwaith SROI. Er bod tybiaethau cynhenid yn y dadansoddiad hwn, mae cymhwyso'r egwyddor o beidio â gorhawlio'n gyson yn arwain at danbrisio posibl rhai deilliannau materol yn seiliedig ar faterion megis hyd yr effaith.

Mae cynnal dadansoddiad sensitifrwydd wedi'i gynllunio i asesu unrhyw ragdybiaethau a gynhwyswyd yn y dadansoddiad. Mae profi un newidyn ar y tro fel maint, hyd, gwrthffeithiol, neu ostyngiad yn caniatáu i unrhyw faterion sy'n cael effaith sylweddol ar y deilliannau gael eu nodi. Os bernir bod unrhyw fater yn cael effaith sylweddol, dylid ystyried y dybiaeth hon yn ofalus a'i rheoli wrth symud ymlaen. I brofi'r tybiaethau yn y dadansoddiad hwn, newidiwyd ystod o faterion yn sylweddol i fesur eu heffaith. Rhoddir crynodeb o'r deilliannau yn Nhabl 14.

Pe bai un elfen yn newid yn y deilliannau, byddai hyn yn dangos gwahaniaeth yn y canlyniad SROI fel y gwelir yn Nhabl 14. Mae hyn yn cryfhau hyder yn y deilliannau ac ym mhob un o'r dyfarniadau a wnaed yn ystod y dadansoddiad hwn. O'r tabl dadansoddiad sensitifrwydd isod, gellir amcangyfrif bod y gwerthusiad gwerth cymdeithasol rhwng **£2.28 hyd at £6.48** am bob £1 a fuddsoddir. Mae'r tybiaethau a ddefnyddir yn y map gwerth yn amcangyfrif mai'r gwerth cymdeithasol yw **£3.36.**

*Tabl 14 - Crynodeb o'r Dadansoddiad Sensitifrwydd*

| Newidyn | Tybiaeth gyfredol | Tybiaeth ddiwygiedig | SROI diwygiedig | Cyfran y newid |
|---|---|---|---|---|
| **Gwirfoddolwyr** | | | | |
| **Teimlad o berthyn i gymuned** | Gwrthffeithiol (60%) | Gwrthffeithiol (30%) | £3.40 | +1.2% |
| | Priodoliad (60%) | Priodoliad (80%) | £3.33 | -0.9% |
| | Nifer Gwirfoddolwyr (20) | Nifer Gwirfoddolwyr (10) | £3.29 | -2.1% |
| | Priodoliad (60%) | Priodoliad (30%) | £3.35 | -0.30% |
| | Gostyngiad (0%) | Gotyngiad (30%) | £3.33 | -0.90% |
| **Teimlad o bwrpas** | Gwrthffeithiol (60%) | Gwrthffeithiol (0%) | £3.41 | +1.5% |
| | Dadleoliad (0%) | Dadleoliad (30%) | £3.35 | -0.30% |
| | Priodoliad (60%) | Priodoliad (90%) | £3.33 | -0.90% |
| **Lleihau Unigrwydd** | Gwrthffeithiol (60%) | Gwrthffeithiol (30%) | £3.38 | +0.60% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | Priodoliad (60%) | Priodoliad (0%) | £3.41 | +1.50% |
| | Dadleoliad (0%) | Dadleoliad (90%) | £3.32 | -1.20% |
| **Trigolion** | | | | |
| **Teimlo'n unig** | Gwrthffeithiol (30%) | Gwrthffeithiol (0%) | £3.63 | +8.03% |
| | Priodoliad (30%) | Priodoliad (60%) | £3.09 | -8.03% |
| | Nifer (150) | Nifer (120) | £2.71 | -19.3% |
| **Teimlad o berthyn i gymuned** | Gwrthffeithiol (60%) | Gwrthffeithiol (30%) | £2.83 | -15.8% |
| | Priodoliad (60%) | Priodoliad (0%) | £3.89 | +15.8% |
| **Gwella iechyd corfforol** | Gwrthffeithiol (30%) | Gwrthffeithiol (60%) | £3.22 | - 4.16% |
| | Priodoliad (30%) | Priodoliad (0%) | £3.50 | +4.16% |
| | Nifer (150) | Nifer (280) | £6.16 | +83.3% |
| **Gwella Iechyd Meddyliol** | Gwrthffeithiol (30) | Gwrthffeithiol (90) | £2.47 | -26.5% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Priodoliad (30) | Priodoliad (0) | £3.80 | +13.09% |
| | Nifer Trigolion (150) | Nifer Trigolion (100) | £2.28 | -32.14% |
| **Holl fuddiannau i drigolion** | Parhâd (1 Blwyddyn) | Parhâd (2 flynedd) | £6.48 | +92.8% |

## 13.0 Cyfyngiadau

Fel y dangoswyd uchod, cymerwyd gofal mawr i gadw at yr egwyddor o beidio â hawlio gormod. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig cydnabod bod rhai cyfyngiadau. Fel y crybwyllwyd yn yr adroddiad hwn, prif ffocws yr adroddiad yw deall yr effaith y bydd Caffi Hafod Ceiri a'r gweithgareddau a raglennir yn debygol o'i gael ar y grŵp o wirfoddolwyr a thrigolion lleol a fydd yn defnyddio'r Caffi ac yn cymryd rhan y gweithgareddau a drefnir. Fodd bynnag, mae angen tynnu sylw at rai cyfyngiadau.

### Disgwyliadau yn hytrach na phrofiadau

Cafodd yr adroddiad ei lunio rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025. Yn wreiddiol y bwriad oedd agor y Caffi ym mis Gorffennaf 2024. Byddai hyn wedi rhoi cyfle i siarad gyda rhai o ddefnyddwyr y Caffi a'r Gwirfoddolwyr am eu profiadau rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2024. Yn anffodus, fe gafwyd peth rhwystrau gyda'r gwaith adeiadu a dodrefnu, felly, nid ydyw'r Caffi wedi'i orffen, a bu'n rhaid gohirio agoriad y caffi, o ganlyniad, ni fu'n bosibl i gynnwys profiadau uniongyrchol o'r Caffi. Felly, mae'r adroddiad yma yn seiliedig ar fewnbwn gwirfoddolwyr gan gynnwys rhai sydd wedi bod yn weithredol ar y Pwyllgor Rheoli ac wedi cynorthwyo gyda pheth o'r gwaith paratoi; ond mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn seiliedig ar ddisgwyliadau gwirfoddolwyr a thrigolion lleol o'r Caffi pan fydd yn agor.

### Amcangyfrif Niferoedd

Yn yr un modd, gan mai tafluniad yw'r asesiad yma, amcangyfrif a geir o nifer y gwirfoddolwyr a'r trigolion lleol a fydd yn cymryd rhan ac yn mynychu'r Caffi.

Mae'r Cais a wnaed gan Bwyllgor Hafod Ceiri i Gronfa Ffyniant Cyffredin yn nodi bwriad i hyfforddi 20 o wirfoddolwyr ac i ddenu 150 o drigolion lleol. Mae hefyd yn anelu i ddenu 1,250 o ymwelwyr yn flynyddol. Llwyddwyd i gynnal dau sesiwn gyda dros 20 o wirfoddolwyr a thrigolion lleol yn ogystal â chadarnhau deilliannau drwy sgyrsiau unigol. Yn ogystal fe

ddychwelwyd 7 o holiaduron gan wirfoddolwyr (35%) a 20 o holiaduron gan drigolion lleol (13%). Fe geisiwyd cael darlun o ddisgwyliadau ymwelwyr drwy gynnal sesiwn gyda chriw o Nant Gwrtheyrn, ond nid oeddem yn hyderus bod y darlun a gafwyd yn ddigon clir. Felly, er mwyn osgoi gorhawlio, penderfynwyd peidio cynnwys gwerth cymdeithasol ymwelwyr yn yr asesiad yma, er mae'n debygol bod cryn botensial i hyn ychwanegu gwerth sylweddol yn dilyn sefydlu'r Caffi.

## Mewnbynnau ac Amcangyfrifon Ariannol

Mae'r rhagolwg o incwm a gwariant yn seiliedig ar ragamcanion yn hytrach na ffigyrau gweithredol. Defnyddiwyd y ffigyrau o Gynllun Busnes Hafod Ceiri a luniwyd ym Mehefin 2022 ar gyfer y cyfnod 2022-27. Fe ychwanegwyd cyfradd chwyddiant o 5% at y ffigyrau yn unol â chyfradd chwyddiant rhagdybiedig y Trysorlys (cpi). Yn yr un modd, mae angen bod yn ymwybodol mai tafluniad yw'r Cynllun Busnes ac nid oes ffigyrau gweithredol ar gael o drosiant y Caffi ar hyn o bryd.

## Rheolwr y Caffi

Bwriedir penodi Rheolwr i redeg y Caffi. Eto, fe wnaed penderfyniad gan y Bwrdd Rheoli i ohirio'r penodiad a bwriedir penodi rhai unigolion dros dro i ymgymryd â thasgau o dro i dro. Felly, fe wnaethom benderfynu i beidio cynnwys gwerth cymdeithasol a gyfrennir gan Rheolwr yn yr adroddiad yma. Eto, mae'n debygol y bydd hyn yn elfen allweddol wrth i'r Caffi sefydlu ei hun dros y blynyddoedd nesaf.

## 14.0 Risgiau

Yn unol ag egwyddor 6 – tryloywder, mae angen i ni egluro'r risgiau yn yr adroddiad hwn. Mae'r rhagolwg SROI hwn yn cael ei ysgrifennu gyda'r gwaith ar y Caffi yn dal i fynd rhagddo. Felly, bydd angen ystyried y sefyllfa nes ymlaen pan fydd y Caffi wedi agor, ond isod nodir rhai risgiau sydd wedi'u canfod, ac yna wedi'u lliniaru orau â phosibl yn unol ag egwyddor 6 gwerth cymdeithasol.

*Tabl 15 - Risgiau*

| Risg | Camau a gymerwyd i leihau'r risg |
|---|---|
| **Deilliannau a adnabuwyd –** Mae'r deilliannau yn seiliedig ar ddisgwyliadau – h.y. nid ydi'r Caffi wedi agor ac felly, mae'r dystiolaeth yn seiliedig ar yr hyn mae'r trigolion lleol a'r gwirfoddolwyr yn disgwyl y bydd yn digwydd. | Cafwyd mewnbwn da gan y ddau grŵp o randdeiliaid allweddol drwy grwpiau trafod, holiaduron a sgyrsiau un i un. Roedd rhai o'r gwirfoddolwyr yn gwirfoddoli yn y cyfnod cyn Ebrill 2024 ac yn dal i wneud yn ystod cyfnod paratoi at agoriad y caffi. Roedd yr holl wirfoddolwyr a'r trigolion – 100% yn ystyried bod y deilliant o 'Teimlad o berthyn i gymuned' yn bwysig. Felly, roeddem yn hyderus gyda defnyddio hwn fel y gwerth angori ar gyfer y ddau grŵp. |
| **Amcangyfrif niferoedd** – Mae'r Cais SPF yn cyfeirio ar 1,250 o ymwelwyr, 150 o drigolion lleol ac 20 o wirfoddolwyr. Ceisiwyd cael tystiolaeth gan y 3 grwp er mwyn gwneud asesiad. | Roedd y dystiolaeth gan y ddau grŵp o randdeiliaid uchod yn eithaf clir, ond roedd y grwp arall o ymwelwyr yn aneglur. Fe gynhaliwyd sesiwn gyda grŵp o ymwelwyr â Nant Gwrtheyrn gerllaw, ond nid oedd y deilliannau'n glir ac nid oedd modd eu cadarnhau. Felly, penderfynwyd peidio cynnwys y |

| | |
|---|---|
| | grŵp yma o randdeiliaid gan nad oedd yr wybodaeth yn glir ac i osgoi gorhawlio gwerth cymdeithasol. |
| **Mewnbynnau ac Amcangyfrifon Ariannol** – posibilrwydd o ddangos mewnbynnau ariannol afreal oherwydd oedi yn agoriad y Caffi | Defnyddiwyd tafluniadau incwm a gwariant y Caffi a nodir yng Nghynllun Busnes y Caffi ar gyfer adnabod mewnbynnau ariannol.<br>Lluniwyd y rhagolwg ym mis Mehefin 2022, felly fe ychwanegwyd cyfradd 5% yn unol â data cpi at y ffigyrau er mwyn cyfarch cyfnod yr adroddiad. Yn ogystal fe ddefnyddiwyd ffigyrau 2022-24 ar gyfer y cyfnod Ebrill 2024-Mawrth 2026 i gydfynd â chyfnod yr adroddiad a gohiriad agoriad y Caffi.<br>Yn ogystal fe gynhaliwyd cyfarfod gyda chydlynydd y prosiect i gadarnhau beth oedd yr oriau cyfartalog y disgwylir i wirfoddolwyr gyfrannu yn ystod y cyfnod yn arwain at agoriad y caffi ac yn y ddwy flynedd gyntaf. Yn y flwyddyn gyntaf, penderfynwyd cyfyngu'r nifer o wirfoddolwyr i 14 ar gyfer y dadansoddiad yma er mwyn osgoi tanhawlio ar gyfer cyfnod yr asesiad. |
| **Rheolwr Caffi** - Mae'n bosibl y bydd rôl y Rheolwr yn allweddol yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, ond fe benderfynwyd peidio nodi gwerth cymdeithasol. | Roedd y Cynllun Busnes gwreiddiol yn cynnwys penodi Rheolwr Caffi ar gyfer y cyfnod yn arwain at yr agoriad, ond fe wnaed penderfyniad i beidio penodi ar hyn o bryd. |

| | |
|---|---|
| | Fe wnaethom rhoi y swm o £25,458 ar gyfer cyflogi Rheolwr a'i gynnwys ar gyfer 1 flwyddyn yn unig. Mae'n bosibl y bydd penodiad yn digwydd yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf, neu o leiaf mae disgwyl penodi rhai aelodau o staff dros dro yn ôl yr angen. Byddai peidio cynnwys y swm yma dan mewnbynnau yn gallu achosi gorhawlio. |

## 15.0 – Proses ddilysu

Yn unol ag egwyddorion gwerth cymdeithasol mae angen i ni hefyd sicrhau ein bod yn gwirio'r wybodaeth rydym yn ei chynnwys yn yr adroddiad. Ar gyfer y gwirfoddolwyr a'r trigolion lleol fe wnaethom gynnal grŵp trafod lled-strwythuredig ac ar ôl tua 45 munud fe wnaethom gyrraedd pwynt dirlawnder lle nad oeddem bellach yn clywed dim byd newydd neu ganlyniadau gwahanol o bosibl i'w hystyried. Yna fe luniwyd holiadur gyda'r prif allbynnau a deilliannau a'i ddosbarthu er mwyn cael cadarnhâd ein bod wedi adnabod y prif faterion. Yn ogystal fe gynhaliwyd dwy sgwrs un i un gyda rhai o'r trigolion lleol gan bod eu nifer yn fwy i gael gwybodaeth ganddynt am ddeilliannau disgwyliedig o'r Caffi newydd. Nesaf, fe luniwyd theori newid. Yna, fe wnaethom gynnal grŵp arall lled-strwythuredig, gan ddangos iddynt y theori newid yr oeddem wedi'i llunio i gael eu barn ar y deilliannau a nodwyd ar gyfer y grŵp gan gynnwys aelodau gwirfoddol y Pwyllgor. Cadarnhawyd ein bod wedi nodi'r deilliannau sy'n dangos eu disgwyliadau o brofiadau wrth wirfoddoli neu fynychu'r Caffi.

I wirio mewnbynnau'r prosiect, fe gynhaliwyd sgwrs gyda'r cydlynydd i fynd dros y mewnbynnau ariannol. Yn y cyfarfod hwn, aethom dros bob mewnbwn ariannol o'r prosiect i sicrhau ein bod mor gywir ag y gallem fod gyda phob mewnbwn ariannol. Cafodd yr holl fewnbynnau a gynhwyswyd gennym yn yr adroddiad eu cymeradwyo a'u dilysu gan y cydlynydd.

## 16.0 Casgliad a Chanfyddiadau Allweddol

***Mae'r adroddiad hwn yn dangos y rhagwelir y bydd Caffi Hafod Ceiri yn creu dros £795,922.78 o werth cymdeithasol ac am bob £1 a fuddsoddir, amcangyfrifir y bydd £3.36 o werth yn cael ei greu.***

***Yr hyn y mae hynny'n ei olygu yn ymarferol yw bod bywydau pobl wedi'u newid yn gadarnhaol***

Mae'r adroddiad yma'n amlygu beth y gall Caffi Hafod Ceiri ei gynnig i drigolion lleol yn ardal Llithfaen ac i wirfoddolwyr drwy roi cyfleoedd i wirfoddoli ac i gymdeithasu gan gyfrannu at yr ymdeimlad o berthyn i gymuned. Nodir yn glir bod y gymuned wledig yma yn eithaf bregus o ran cyfleoedd i gymdeithasu a chynnal hunaniaeth Gymreig a Chymraeg. Mae'r targedau cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg i filiwn a mwy erbyn 2050 yn llwyr ddibynnol at hyfywedd cymunedau fel Llithfaen. Mae disgwyl y bydd y Caffi cymunedol newydd yma yn y pentref yn cyfrannu'n sylweddol at gryfhau'r ymdeimlad o gymuned ar adeg allweddol.

Bydd y Caffi yn gyfle newydd i drigolion lleol a gwirfoddolwyr ddod ynghyd mewn awyrgylch braf a chlud. Er bod Tafarn y Fic a Siop y pentref yn cynnig cyfle i gymdeithasu, roedd y rhai a holwyd yn teimlo'n gryf bod angen rhywle sydd ar gael yn ystod y dydd i'w galluogi i ddod at ei gilydd yn anffurfiol i sgwrsio a chymdeithasu. Bydd y Caffi hefyd yn cynnal digwyddiadau a gweithgareddau amrywiol a fydd yn fodd i dynnu trigolion a gwirfoddolwyr at ei gilydd.

Yn deillio o hyn mae nifer o fuddiannau tebygol eraill i wirfoddolwyr a thrigolion lleol. Nid oes gwasanaeth bysiau hwylus ar gael o'r pentref, felly, bydd yn caniatau i bobl sydd heb drafnidiaeth i wario amser yng nghwmni pobl eraill ac mewn lleoliad hwylus a braf. Rhagwelir

y bydd hyn yn fodd i leihau unigrwydd i nifer o bobl sydd ar hyn o bryd yn ei chael yn anodd i adael eu cartrefi er mwyn cwrdd â phobl eraill.

Un arall o'r buddiannau disgwyliedig yw gwella iechyd meddyliol i rai o drigolion yr ardal. Er nad oes sicrwydd o sut y bydd hyn yn digwydd, mae'r datganiadau a sylwadau gan yr holl drigolion a ddychwelodd holiaduron (100%) yn awgrymu'n gryf bod cael rhywle cymunedol a chroesawgar yn y pentref yn mynd i gyfrannu'n sylweddol tuag at leddfu poenau meddwl.

Yr agwedd arall ar y ddarpariaeth newydd a fydd o fudd i drigolion a gwirfoddolwyr yw'r arlwo a fydd yn cael ei gynnig. Disgwylir i'r Caffi gynnig prydau maethlon o fwyd iach ac o bosibl i hybu pobl i goginio prydau maethlon drwy ddylanwadu ar eu harlwy dyddiol. Yn y modd yma, yn ogystal â denu trigolion i gerdded i'r Caffi ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol, mae 40% o'r rhai a holwyd yn disgwyl y bydd y Caffi yn cyfrannu'n positif tuag at eu hiechyd corfforol.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried effaith gymdeithasol rôl y gwirfoddolwyr a'r effaith gadarnhaol y mae'r rôl yn ei chael ar y grŵp o wirfoddolwyr.

Beth bynnag fydd y canlyniadau i wirfoddolwyr a thrigolion, ni fyddent yn debygol o brofi'r buddiannau yma heb fodolaeth Caffi Hafod Ceiri.

### *Canfyddiadau allweddol*

- 100% o drigolion lleol a gwirfoddolwyr yn teimlo bod eu hymdeimlad o berthyn i gymyned yn gryfach yn sgil agor Caffi Hafod Ceiri.
- 63% o wirfoddolwyr yn teimlo'n well yn eu hunain drwy wirfoddoli yn y Caffi a rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned
- Mae deilliannau'r gwirfoddolwyr a'r trigolion lleol yn cydfynd ag amcanion Deddf Llesiant a Chendlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o *Cymru o gymunedau cydlynus* a *Cymru iachach*.

- 70% o drigolion lleol yn teimlo'n llai unig drwy fedru mynychu'r Caffi
- 40% o drigolion lleol yn ystyried y bydd eu hiechyd corfforol yn well drwy ymweld â'r Caffi ar gyfer gweithgareddau a bwyd maethlon.
- 100% o drigolion lleol yn disgwyl y bydd eu hiechyd meddwl yn gwella drwy gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Caffi a chael cyfle i gymdeithasu a sgwrsio dros baned.

# 17.0 Argymhellion

## Data cyfredol

Un o'r rhwystrau pennaf o safbwynt llunio'r adolygiad a'r gwerthusiad yma oedd y ffaith bod agoriad y caffi wedi cael ei ohirio am bron i flwyddyn. Roedd hyn yn anochel oherwydd anawsterau ymarferol gyda'r amserlen adeiladu ac uwchraddio. Bu'n bosibl casglu ychydig o ddata yn uniongyrchol gan grŵp o wirfoddolwyr a oedd wedi cymryd rhan yn y paratoadau fel aelodau o'r Pwyllgor a'r criw a fu'n helpu i wneud trefniadau ymlaen llaw. Serch hynny, nid ydyw'r data yma'n ddigonol o safbwynt gwneud dadansoddiad manwl o'r gwerth cymdeithasol.

Felly, mae'n bwysig pwysleisio mai rhagolwg yw'r adroddiad yma. Er y casglwyd gwybodaeth yn uniongyrchol gan y darpar wirfoddolwyr a'r trigolion lleol, **bydd angen cynnal gwaith pellach i gasglu data gan y ddau grŵp o randdeiliaid yma yn dilyn agoriad y Caffi, dyweder ymhen blwyddyn i weld a oedd y tafluniad yn cyfarch y prif ddeilliannau a'r gwerth cymdeithasol sy'n cael ei greu**. Byddai hefyd yn bosibl dadansoddi a oes segmentau posibl, er enghraifft, mwy o ddyfnder o ran newid i drigolion lleol hŷn. Yn dilyn cynnal y gwaith yma, a sefydlu cadernid y deilliannau fel gwaelodlin, byddai modd bwrw ymlaen i greu fframwaith fesur ar gyfer rheoli a datblygu'r gwaith i'r dyfodol.

## Rhanddeiliaid Eraill

Fe gyfeiriwyd at nifer o randdeiliaid potensial eraill yn y sgyrsiau gydag aelodau'r Pwyllgor Rheoli gan gynnwys yr Urdd, Cyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a sefydliadau sy'n darparu cyngor a gwybodaeth am gostau byw, gwella iechyd a llesiant. Er bod potensial i'r rhanddieiliad yma gyfrannu ac elwa o weithgareddau Caffi Hafod Ceiri, penderfynwyd peidio eu cynnwys yn yr arolwg ar yr adeg yma. Serch hynny, mae potensial

sylweddol i ychwanegu gwerth cymdeithasol drwy gydweithio gyda'r asiantaethau yma. Yn ogystal, byddai'm werth asesu a fydd y Caffi yn lleihau pwysau ar y sefydliadau statudol.

Un o'r grwpiau potensial eraill a adnabuwyd oedd ymwelwyr â'r ardal. Fe gynhaliwyd un sesiwn gydag un grŵp yn y Ganolfan Iaith yn Nant Gwrtheyrn. Ni chafwyd digon o ddata i'w gynnwys yn yr adroddiad yma. Unwaith eto, mae potensial i ymwelwyr â'r Caffi i elwa o werth cymdeithasol ac i'w gyfrannu i drigolion lleol a gwirfoddolwyr.

**Felly, pan fydd y Caffi wedi bod yn rhedeg am gyfnod, dylid cynnal arolwg o'r grwpiau yma yn debyg i'r hyn a wnaed gyda'r asesiad o wirfoddolwyr a thrigolion lleol yn yr adolygiad yma, a gwneud asesiad o'u gwerth cymdeithasol ac unrhyw effeithiau lliniaru pwysau ar sefydliadau.**

## Ffactorau Negyddol a Chyfleoedd

Yn dilyn casglu'r data, fe luniwyd dwy theori newid ar gyfer Gwirfoddolwyr a Thrigolion Lleol. Y ffactorau negyddol o safbwynt y Trigolion Lleol oedd cynnydd posibl yn y pwysau am lefydd parcio y tu allan i'r Caffi yn enwedig yn ystod cyfnod gwyliau a phrinder gwasanaethau bysiau hwylus.

O safbwynt y Gwirfoddolwyr, roedd pryder y gallai fod prinder gwirfoddolwyr newydd ac y gallai'r Caffi roi pwysau ychwanegol ar yr un rhai i wirfoddoli a allai arwain at greu straen a diflastod.

Eisoes mae'r Pwyllgor Rheoli wedi cynnal sesiynau hyfforddi ar gyfer gwirfoddolwyr ac wedi cynnal ymgyrch recriwtio a fydd gobeithio yn lliniaru unrhyw effaith negyddol.

**Mae'n rhy fuan i wneud argymhellion cadarn ar hyn o bryd, ond pan fydd y Caffi'n rhedeg, disgwylir i'r pictiwr ynglyn â'r uchod ddod yn gliriach. Pan ddigwydd hynny, bydd angen rhoi sylw manwl i'r materion yma ac ystyried sut orau i ddelio gyda nhw.**

## 18.0 Atodiadau

Atodiad 1 – Theori Newid Gwirfoddolwyr


Atodiad 2 – Holiadur Gwirfoddolwyr

Atodiad 3 – Theori Newid Trigolion

Atodiad 4 – Holiadur Trigolion

Atodiad 5 – Map Gwerth (Tudalen Excel ar wahân)

## 8.1 Atodiad 1 – Theori Newid Gwirfoddolwyr



## 18.2 Atodiad 2 – Holiadur Gwirfoddolwyr

SOCIAL VALUE CYMRU

FFYNIANT BRO

MANTELL GWYNEDD

### Arolwg Hafod Ceiri - Gwirfoddolwyr

PAGE TITLE

**Pwrpas yr arolwg hwn?**

Fel rhan o gyllid Ffyniant Bro, mae Social Value Cymru yn gwerthuso'r prosiectau a ariennir gan Grant Sector Gwirfoddol Mantell Gwynedd (GSG). Mae Hafod Ceiri wedi bod yn llwyddiannus yn ddiweddar i gael grant o'r gronfa Ffyniant Bro i wneud gwaith i uwchraddio a dodrefnu'r Caffi. O ganlyniad, mae Mantell Gwynedd yn paratoi gwerthusiad gwerth cymdeithasol i ddeall pa mor bwysig yw'r caffi i bobl leol a pha wahaniaethau bydd y gweithgareddau'n gwneud i wirfoddolwyr a defnyddwyr.

Byddem yn gwerthfawrogi petaech yn llenwi'r holiadur hwn am y profiadau fyddwch yn gobeithio cael yn y Caffi.

**Diogelu Data**

Bydd eich ymateb yn cael ei drin yn gyfrinachol ac yn unol â Deddf Diogelu Data 2018. Bydd eich holl ymatebion yn aros yn gyfrinachol ac yn ddienw. Canlyniadau arolwg cyffredinol yn unig fydd yn cael eu cyhoeddi - diolch Mae'n ddewisol i gynnwys eich enw. Os penderfynwch fewnbynnu eich enw dim ond er mwyn gwybod pwy sydd wedi cwblhau'r arolwg ac i osgoi dyblygu y caiff ei rannu. Ni fydd canlyniadau unigol yn cael eu rhannu.

Y dyddiad cau ar gyfer yr arolwg hwn yw **1 Tachwedd 2024**. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr arolwg, gallwch gysylltu â **Gareth James: gareth.james@mantellgwynedd.com**

1. Enw (Dewisol)

2. Gendr

- ☐ Gwryw
- ☐ Benyw
- ☐ Anneuaidd
- ☐ Rwy'n cael anbabod ffordd arall
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud

3. Oed

- ☐ O dan 18
- ☐ 18-24
- ☐ 25-34
- ☐ 35-44
- ☐ 45-54
- ☐ 55-64
- ☐ 65+

4. Ym mha ardal ydych chi'n byw? ticiwch os gwelwch yn dda

- ☐ Llithfaen
- ☐ Ar gyrion y pentref
- ☐ Tu allan

5. Faint o Gymraeg ydych chi'n defnyddio?

- ☐ Pob dydd
- ☐ Weithiau
- ☐ Dim o gwbl

6. Yn eich geiriau eich hun nodwch pam eich bod yn bwriadu gwirfoddoli yn Hafod Ceiri?

7. Faint o oriau ydych chi'n bwriadu gwirfoddoli yn Hafod Ceiri?

8. Beth ydych chi'n gobeithio bydd yn newid i chi pan yn gwirfoddoli yn Hafod Ceiri? Ticiwch y blwch sy'n disgrifio'r newid orau a faint o newid rydych chi'n disgwyl ei brofi.

| | Dim newid | Ychydig o newid | Rhwyfaint o newid | Cryn dipyn o newid | Llawer o newid | N/A |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwella a dysgu sgiliau newydd | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Cael hwb i fynd allan yn rheolaidd | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Cael cyfle newydd i fynd allan, cymryd rhan a chymdeithasu | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Teimlo'n well o wybod y gallaf helpu eraill yn y gymuned | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Teimlo mwy o ymdeimlad o bwrpas a hunanwerth | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Teimlo'n well o wybod bod gen i rywle i fynd bob wythnos | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Teimlo mwy o straen wrth wirfoddoli | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Teimlo fy mod yn helpu cenedlaethau'r dyfodol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Helpu i gynnal Cymuned Gymraeg ei hiaith | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Helpu i gynnal ysbryd y bobl a'r gymuned | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Lleihau diflastod | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Cael gweithio mewn tim | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Cyfle i sgwrsio, cael paned a chymdeithasu | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

Arall (nodwch)

9. Gan ddewis o'r rhestr o ganlyniadau a restrir isod ar raddfa o 1-10, lle mae 10 yn bwysig iawn i chi, a allwch chi ddweud pa mor bwysig yw'r newidiadau hyn i chi, os yw'n berthnasol?


| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | N/A |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Teimlad o berthyn i gymuned | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Teimlo'n well yn fy hun | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Teimlad o bwrpas | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Lleihau unigrwydd | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

10. Wrth feddwl am eraill sydd yn eich helpu i brofi unrhyw newidiadau cadarnhaol, faint o'r canlyniadau fyddai oherwydd Hafod Ceiri? Efallai bod teulu, ffrindiau neu sefydliadau eraill yn eich helpu gyda'r newidiadau hyn hefyd

- ☐ Nid oes unrhyw un o'r newidiadau oherwydd eraill
- ☐ Mae rhai o'r newidiadau o ganlyniad eraill
- ☐ Mae cryn dipyn o'r newidiadau o ganlyniad eraill
- ☐ Mae llawer o'r newid o ganlyniad eraill
- ☐ Mae'r holl newidiadau o ganlyniad eraill

11. Ydych chi'n meddwl y byddech chi'n cael yr un deillianau pe baech chi'n gwirfoddoli yn unrhyw le arall? Os ydych, a allech chi nodi os gwelwch yn dda.

## 18.3 Atodiad 3 – Theori Newid Trigolion



## 18.4 Atodiad 4 – Holiadur Trigolion

SOCIAL VALUE CYMRU

FFYNIANT BRO

MANTELL GWYNEDD

### Arolwg Hafod Ceiri - Trigolion

PAGE TITLE

**Pwrpas yr arolwg hwn?**
Fel rhan o gyllid Ffyniant Bro, mae Social Value Cymru yn gwerthuso'r prosiectau a ariennir gan Grant Sector Gwirfoddol Mantell Gwynedd (GSG). Mae Hafod Ceiri wedi bod yn llwyddiannus yn ddiweddar i gael grant o'r gronfa Ffyniant Bro i wneud gwaith i uwchraddio a dodrefnu'r Caffi. O ganlyniad, mae Mantell Gwynedd yn paratoi gwerthusiad gwerth cymdeithasol i ddeall pa mor bwysig yw'r caffi i bobl leol a pha wahaniaethau bydd y gweithgareddau'n gwneud i wirfoddolwyr a defnyddwyr.
Byddem yn gwerthfawrogi petaech yn llenwi'r holiadur hwn am y profiadau fyddwch yn gobeithio cael yn y Caffi.

**Diogelu Data**
Bydd eich ymateb yn cael ei drin yn gyfrinachol ac yn unol â Deddf Diogelu Data 2018. Bydd eich holl ymatebion yn aros yn gyfrinachol ac yn ddienw. Canlyniadau arolwg cyffredinol yn unig fydd yn cael eu cyhoeddi - diolch
Mae'n ddewisol i gynnwys eich enw. Os penderfynwch fewnbynnu eich enw dim ond er mwyn gwybod pwy sydd wedi cwblhau'r arolwg ac i osgoi dyblygu y caiff ei rannu. Ni fydd canlyniadau unigol yn cael eu rhannu.
Y dyddiad cau ar gyfer yr arolwg hwn yw **1 Tachwedd 2024**. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr arolwg, gallwch gysylltu â **Gareth James: gareth.james@mantellgwynedd.com**

1. Gendr

- ☐ Gwryw
- ☐ Benyw
- ☐ Anneuaidd
- ☐ Rwy'n cael anbabod ffordd arall
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud

2. Oed

- ☐ O dan 18
- ☐ 18-24
- ☐ 25-34
- ☐ 35-44
- ☐ 45-54
- ☐ 55-64
- ☐ 65+

3. Ym mha ardal ydych chi'n byw? ticiwch os gwelwch yn dda

- ☐ Llithfaen
- ☐ Ar gyrion y pentref
- ☐ Tu allan

4. Faint o Gymraeg ydych chi'n defnyddio?

- ☐ Pob dydd
- ☐ Weithiau
- ☐ Dim o gwbl

5. Yn eich geiriau eich hun nodwch pam eich bod yn bwriadu mynychu Hafod Ceiri?

6. Beth ydych chi'n gobeithio bydd yn newid i chi pan yn mynychu Hafod Ceiri? Ticiwch y blwch sy'n disgrifio'r newid orau a faint o newid rydych chi'n disgwyl ei brofi.

| | Dim newid | Ychydig o newid | Rhwyfaint o newid | Cryn dipyn o newid | Llawer o newid | N/A |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cael hwb i fynd allan yn rheolaidd | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Cael cyfle newydd i fynd allan, cymryd rhan a chymdeithasu | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Teimlo mwy o ymdeimlad o bwrpas a hunanwerth | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Teimlo'n well o wybod bod gen i rywle i fynd bob wythnos | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Teimlo fy mod yn helpu i roi gwaith i bobl leol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Helpu i gynnal Cymuned Gymraeg ei hiaith | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Helpu i gynnal ysbryd y bobl a'r gymuned | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Cyfle i gadw'n heini ac iach | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Cyfle i hotdescio | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Cyfle i gael prydau a byr-brydau maethlon | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Lleihau diflastod | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Teimlo'n llai unig | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Cyfle i sgwrsio, cael paned a chymdeithasu | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Cael ysbaid fel rhiant neu ofalwr | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

Arall (nodwch)

7. Gan ddewis o'r rhestr o ganlyniadau a restrir isod ar raddfa o 1-10, lle mae 10 yn bwysig iawn i chi, a allwch chi ddweud pa mor bwysig yw'r newidiadau hyn i chi, os yw'n berthnasol?

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | N/A |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Teimlo'n llai unig | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Teimlad o berthyn i gymuned | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Gwella iechyd corfforol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Gwella iechyd meddyliol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

8. Wrth feddwl am eraill sydd yn eich helpu i brofi unrhyw newidiadau cadarnhaol, faint o'r canlyniadau fyddai oherwydd Hafod Ceiri? Efallai bod teulu, ffrindiau neu sefydliadau eraill yn eich helpu gyda'r newidiadau hyn hefyd

- [ ] Nid oes unrhyw un o'r newidiadau oherwydd eraill
- [ ] Mae rhai o'r newidiadau o ganlyniad eraill
- [ ] Mae cryn dipyn o'r newidiadau o ganlyniad eraill
- [ ] Mae llawer o'r newid o ganlyniad eraill
- [ ] Mae'r holl newidiadau o ganlyniad eraill

9. Ydych chi'n meddwl y byddech chi'n cael yr un deillianau pe baech chi'n mynychu unrhyw le arall? Os ydych, a allech chi nodi os gwelwch yn dda.

10. A oes unrhyw beth yr hoffech ei weld yn cael ei wneud yn wahanol i wella eich profiad fel defnyddiwr Hafod Ceiri?

11. Unrhyw sylwadau eraill sydd gennych am Hafod Ceiri?